

ECO'R WYDDFA

RHIF 85

HYDREF 1983

Pris: 20c

LLE I SEFYLL (AC I EISTEDD) YN Y BWLCH



Beth yw'r adeiladwaith (canol y llun) sy'n llechu yng nganol creigiau Bwlch Llanberis? Beth yw arwyddocâd y llinell wen? Trowch i dudalen 7 am yr atebion.

BUSNES YR ECO AR FLAENAU EI FYSEDD



Ydy, mae'r Eco'n symud efo'r oes dechnolegol hon diolch i ddiddordeb ac ymdrechion Goronwy Hughes, Trefnydd Ariannol y papur.

Mae Goronwy wedi gweithio'n galed i greu rhaglen i gofnodi'r holl dderbyniadau a'r taliadau sy'n gysylltiedig â'r papur ar ei gyfrifiadur meicro personol - sef ZX Spectrum 48K. Hwylusa hyn ei waith yn fawr ac erbyn hyn mater o eiliadau yw derbyn manylion ariannol unrhyw eitem.

Mae'r defnydd o gyfrifiadur at waith yr Eco yn gam pwysig ac yn un y gellir ei ddatblygu i agweddau eraill o weinyddu'r papur.

NEWYDDION O'R PENTREFI APÊL

Y dyddiad cau swyddogol ar gyfer derbyn newyddion pentref i'w cynnwys yn y rhifyn hwn o'r Eco oedd nos Fawrth, Medi 20. (Gwelir y dyddiad cau ar dudalen 2 bob rhifyn.) Er hynny erbyn nos Fawrth, Medi 20 un adroddiad yn unig oedd wedi cyrraedd Mrs Eirlys Pierce, Gohebydd Llanrug, sef adroddiad y gangen leol o Ferched y Wawr. Yn anffodus erbyn hyn yr un yw cwyn nifer o'n Gohebwyrr pentref. Rydym yn gofyn am y newyddion ar y nos Fawrth er hwyluso gwaith Gwasg Gwynedd, a chyfrifoldeb

ysgrifenyddion Clybiau, Cymdeithasau ac yn y blaen yw sicrhau eu bod nhw'n cysylltu â'r Gohebwyrr pentref erbyn y dyddiad cau. Yr un yw'r drefn ar gyfer unigolion sydd yn awyddus i ni gynnwys newyddion (pen-blwydd, priodas, cydymdeimlo ac yn y blaen).

Cofiwch mai gwirfoddolwyr yw'r Gohebwyrr, sydd yn helpu'n aruthrol yn y gwaith o baratoi'r Eco o fis i fis. Os nad ydych yn cysylltu â nhw, mae'n rhy hwyr i chi gwyno pan ddaw'r Eco allan.

DOSBARTHWR CYFLYMA'R SIR?

Rhaid i chi godi'n gynnar i weld Timothy Williams wrth ei waith. A phe baech ar eich traed o gwmpas saith o'r gloch ac yn edrych drwy'r ffenest, does dim sicrwydd, hyd yn oed wedyn, y buasech yn gweld Timothy, gan mor gyflym y symuda.

Gwibia o ddrws i ddrws ar 'roller-skates'.

Dosbarthu papurau newydd dyddiol o amgylch rhan o Lanrug yw gwaith boreol Timothy ac mae'n barod wedi rhoi ystyr newydd i'r enw DAILY EXPRESS!



Ffotograffydd yr Eco yw'r unig un sydd wedi llwyddo i ddal Timothy yn ddiweddar! Dyma fo yn dangos inni sut i wneud gwaith awr mewn ugain munud!

PENCAMPWR SNWCER



Clive Griffith o Lanrug yw un o chwaraewyr snwcer gorau Gogledd Cymru. Profodd hynny'n ddiweddar drwy ennill Pencampwriaeth Unigol Arfordir Gogledd Cymru ym Mhenmaenmawr, a hynny am yr eildro. Ef oedd pencampwr 1981. Ni chwaraeodd y llynedd oherwydd nad oedd swyddogion cynghrair Bangor wedi ei rybuddio o ddyddiadau'r gystadleuaeth ymlaen llaw. Ildio'r cwpan fu rhaid felly ac yntau heb chwarae'r un ffrâm i'w hamddiffyn. Mae'n sicr i hyn fod yn sbardun i'w Parhad ar dudalen 7

PERFFORMIAD CERDDOROL GORAU



Dyma Ffion Williams o Lanrug a enillodd gwpan coffa Rhian Wyn am y porfformiad cerddorol gorau o dan 12 oed yn Eisteddfod Caernarfon ddydd Sadwrn, Medi 24. Ffion gafodd y wobr gyntaf yn yr unawd dan 12 oed - 'Tymhorau' - a daeth yn drydydd yn yr unawd cerdd dant 'Dydd o Haf'.

Enillodd côr ysgol gynradd Llanrug eu cystadleuaeth hwy a daeth parti dawnys yr ysgol yn ail.

Llongyfarchiadau i'r plant a'u hathrawon.

(Mae Timothy a Ffion yn frawd a chwaer).

ECO'R WYDDFA

**RHIF 85
HYDREF**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
(Caernarfon 77163)

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams Tŷ Capel
Disgwyllfa (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

HYDREF 27

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

HYDREF 18

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

TAITH I AWSTRALIA

Annwyl Gyfeillion,

*Y mae Côr Godre'r Aran,
Llanuwchllyn yn mynd ar daith
eto eleni o'r 12ed o Hydref hyd y
4ydd o Dachwedd am yr eildro i
Awstralia a chan fod y papurau
bro yn cael eu hanfon gan lawer o
ddarllenwyr i'w perthnasau a
ffrindiau i bob rhan o'r byd carwn
restru isod fanylion o'r daith. Yr
ydym fel Côr ac eraill sydd yn dod
gyda ni ar y daith yn awyddus
iawn i gyfarfod a chael sgwrs
gyda'ch perthnasau a ffrindiau
fydd hwyrach yn falch o gael
cyfle i ddod i'r Cyngherddau neu
ein cwrdd yn y Gwestai. Fel arfer
trefnydd y daith yw Llywydd
Anrhydeddus — Mr Tom Jones,
Llanuwchllyn, sydd wedi bod
wrthi am fisoedd yn paratoi
gyda'r gwahanol Gymdeithasau
Cymraeg neu Gapel, a
phwyllgorau eraill yn y gwahanol
Drefi a Dinasoedd y byddwn yn*

cynnal Cyngherddau:

Hydref: 15. Town Hall, Sydney.
16. Capel Chalmers St., Sydney.
17. Neuadd yn Wollongong. 18.
City Hall, Newcastle. 19. Neuadd
yn Lithgow. 21. Civic Theatre,
Wagga Wagga. 22. Great Hall,
National Australia University,
Canberra. 23. Camberwell Civic
Centre Hall, Melbourne. 24. Capel
Cymraeg, Melbourne. 26. Neuadd
yn Whyalla. 27. Town Hall,
Adelaide. 28. Neuadd yn York,

Cofiwch am y CYNGERDD

gyda
Trebor Edwards,
Hogia'r Wyddfa, Myrddin a
Rosalind, Marian Roberts
yn Nos Fawrth, Hydref 4
Ysgol Brynyrefail, Llanrug
Tocynnau £1.50 ar gael yn siopau
Evan Wilson, Rosalind a Mrs A.
Phillips yn Llanberis; Siop Wavell
yn Llanrug a Siop Edna Jones yn
Neiniolen

I'CH DIDDORI DROS Y GAEAF — CÔR CADNANT

MAE llawer ohonoch siŵr o fod ar ddechrau'r gaeaf fel hyn yn edrych am ddosbarth nos neu Gymdeithas i ymuno â hi. Mae digon o amrywiaeth ar gael hefyd fel y tystia'r taflenni cyhoedduswydd a'r hysbysebion yn y papurau.

Yn wir gellir sicrhau ystwythder corff a meddwl yn ogystal a chael gwledd i'r llygad mewn trefnu blodau neu arlunio. Ceir cyfle i wella'r gallu i gyfathrebu drwy ddysgu iaith neu ddangos dawn greadigol mewn gwaith coed ac ati.

Yn ychwanegol at ddosbarthiadau ffurfiol o dan nawdd y Pwyllgor Addysg neu Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol ceir nifer fawr o gymdeithasau ym mhob pentref yn ailgychwyn. Cymdeithasau yn amrywio o ran natur, rhai i ddynion eraill i ferched, rhai enwadol ac eraill anenwadol rhai politicaidd ac ati.

Ymhlith nifer o'r cymdeithasau hyn ceir CÔR CADNANT, BETHEL. Côr cymysg yw hwn sy'n cyfarfod bob nos Sul am 8 o'r gloch i ymarfer am rhyw awr o amser yn yr Ysgol Gynradd. Y nod yw dysgu amrywiol ganeuon i ddiddanu ein hunain, i gystadlu mewn ambell Eisteddfod, i gynorthwyo gyda'r Canu mewn Cymanfaoedd Canu. Yn ddiweddar bu nifer o aelodau'r Côr yn cadw noson yn Pendalar Caernarfon, a chyflwynwyd rhodd ar ran y Côr i Pendalar.

Gan fod yr ymarfer yn gyson yn yr ysgol penderfynodd Pwyllgor y Côr yr hoffent uniaethu eu hunain â'r ysgol a chyfrannu rhodd tuag at gronfa'r ysgol. Daw'r aelodau presennol o Fethel a'r ardaloedd cyfagos.

Y mae digon o le i aelodau newydd yn y Côr ac os oes rhai ohonoch yn hoffi canu, efallai yr hoffech droi allan o'r tŷ ac ymuno â ni yn ein hymarferiadau nesaf — CROESO.

Gorllewin Awstralia. 29.
Winthrop Hall, Perth, eto. 31.
Gadael Perth am Singapore ac
aros tan 3ydd Tachwedd.

Glyn Pierce
Swyddog Cyhoeddusrwydd
Neuadd Wen
Llanuwchllyn
Y Bala
(06784-685)

CYRSIAU I OEDOLION

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR

Dyma fanylion ynglŷn â chyrsgiau i oedolion a gynhelir ym mro'r Eco yn ystod yr hydref a'r gaeaf:

DEINIOLLEN: "Natur a'r Amgylchfyd" — Dr Llyr D. Gruffydd, M.I.Biol. Dydd Mawrth, 7.00 p.m. yn Ysgol Gwaun Gynfi. Pump cyfarfod o Dachwedd 8.

DINORWIG: "Egwyl ym myd llên" — Ifor Baines, B.A. Dydd Iau, 7.00 p.m. yn y Ganolfan. Pump cyfarfod o Fedi 22.

LLANBERIS: "Dysgu Cymraeg, Blwyddyn 2" — Sylvia Prys Jones, D.Phil. Dydd Mawrth, 7.00 p.m. yn Ysgol Dolbadarn. 20 cyfarfod o Fedi 27.

"Gwerthfawrogi Celfyddyd" — Mrs Barbara Owen, A.T.D. Dydd Llun 7.00 p.m. yn Ysgol Dolbadarn. 20 cyfarfod o Fedi 26.

"Problems in Philosophy" — Richard J. Stanley, M.A. Dydd Llun am 7.00 p.m. yn Ysgol Dolbadarn. 20 cyfarfod o Hydref 3.

"Y Diwydiant Llechi yng Nghymru" — Dr Dafydd Roberts. Dydd Llun, 7.00 p.m. yn Oriel Eryri. 10 cyfarfod o Hydref 3.

"Man and his environment" — Dr Llŷr D. Gruffydd, M.I.Biol. Dydd Llun 7.00 p.m. yn Oriel Eryri. 10 cyfarfod o Ionawr 8, 1984.


LLANRUG: "Gwyddoniaeth Fodern a bywyd bob dydd" — Dr Deri Tomos. Dydd Llun, 7.00 p.m. yn yr Ysgol Gynradd. 20 cyfarfod o Hydref 3. tâl: £8 a £6 i bensiynwyr a'r di-waith.

WAUNFAWR: "Gwerthfawrogi Celfyddyd" — Mrs Christine Politis, A.T.D. — Dydd Gwener — 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. 12 cyfarfod (pob pythefnos) o Fedi 23.

TALIADAU: 20 cyfarfod — £8 a £6 i'r di-waith a rhai wedi ymddeol
12 cyfarfod — £6.75 a £5.25
10 cyfarfod — £6.00 a £4.75
5 cyfarfod — £3.50 a £2.50

Cyrsgiau byr eraill a darlithiau unigol — 70c a 50c y ddarlith

Tŷ TRWYDDEDIG



LLETY CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 4753

(ar y ffordd newydd Caeathro-Bontnewydd)

Prydau o 7.00pm. Yn awr yn cymryd archebion ar gyfer partïon Nadolig a blwyddyn Newydd.

Ar agor ar gyfer Cinio Nadolig

Ffoniwch Mrs Eirlys Birch am fanylion pellach

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Medi 13 yn yr Ysgol Gynradd, cyfarfu'r gangen leol. Llywyddwyd gan Mrs Ann Llwyd Jones a chroesawodd yr aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor. Cyfeiriodd at amryw aelodau fu mewn gwaeldd ac mewn ysbytai yn ystod yr haf a balch oedd o glywed am eu gwellhad - Mrs Eirlys Pierce, Mrs Jane Williams, Mrs Evans, Lloc, Mrs Mair Jones, Ogwen a Mrs Myfi Roberts. Syfrdanwyd hi gan farw sydyn aelod o'r gangen, Mrs A.M. Roberts, Arwyn, a chydymdeimlwyd yn fawr â Mr a Mrs Gareth Roberts, Gregynog a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mynegodd y llywydd werthfawrogiad o ymdrechion canmoladwy Pwyllgor Rhanbarth yr Anabl, yn ddiweddar a'n bod fel cangen yn eu llongyfarch yn fawr.

Estynnodd y llywydd groeso cynnes i'r wraig wadd, Miss Mari Wynn Meredith, un o gymwynaswyr selog Merched y Wawr. Mae'r mudiad yn ffodus iawn o gael ei chymorth parod gyda gosod blodau.

Pleser oedd ei gwyllo yn gweithio a dotiai pawb at y gosodiadau deniadol a luniodd. Iddi hi ffurf ar waith creadigol yw gosod blodau. Anogai aelodau i feithrin yr arferiad a rhoi pleser i eraill drwy ddefnyddio'u dwylo i greu darluniau â blodau.

Diolchwyd i Miss Meredith gan Mrs Beryl Thomas. Y chwiorydd a baratodd y baned oedd Mrs Ann Griffith, Mrs Carrie Owen, Mrs Gwenda Roberts, Mrs Jane Williams, Mrs Sheila Williams a Mrs Vera Williams a diolchwyd iddynt gan Mrs Meirwen Lloyd. Enillwyd y raffl gan Mrs Sian Williams.

Ar Hydref 11 am 7 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd cynhelir Noson Goffi i'r ardal. Bydd yno stondinau Cacenau, Planhigion a Photeli, trefnir i gael gemau ar gyfer y plant. Aelodau, cofiwch ddod â'ch cyfraniadau erbyn 6.30 p.m.

MARW: Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Mrs A.M. Roberts, Arwyn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs Gareth Roberts, Gregynog a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

GWELLHAD BUAN: Anfonwn ein cofion cynhesaf, gan ddymuno adferiad llwyr a buan i Mrs Jane Williams sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl.

BEDYDDIO: Prynhawn Sul, Medi 4 yn y Capel Mawr bedyddiwyd David Lloyd, mab bychan Glyn a Glenys Lewis, Bae Colwyn. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts. Prynhawn Sul, Medi 11 a'r Parch W.O. Roberts yn gweinyddu, bedyddiwyd Llinos

Eleri, merch fach Stephen a Beryl Williams, Haulfan, Ffordd Glanffynnon. Manteisiwn ar y cyfle i ddymuno'n dda i Mr a Mrs Williams a'r teulu sydd ar fin symud o'r ardal i gylch yr Wyddgrug.

Y SEINDORF: Enillydd y wobr o benwythnos yn Llundain neu £50 yn y raffl fawr oedd 'Mag', Gwesty'r Castle, Caernarfon. Aeth y gwobrau eraill i'r canlynol: Eric Jones, d/o Crosville; C. Jones, 5 Caeau Bach, Caernarfon; G.W. Hughes, Llanrug; Mrs B. Owen, 41 Maes Barcer, Caernarfon; Miss A. Marie Williams, 35 Dôl Elidir, Llanberis; Tom, School of Engineering Science, Bangor; D. Fern, G.P.O.; J.E. Morgan, d/o Crosville; Lei Evans, Mountain Rangers F.C.; A. Starkey, Stryd Fawr, Llanberis; E. Lloyd, Y.J.B.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL Pontrhythallt: Nos Fawrth Hydref 18 dan lywyddiaeth y Parch Erfyl Blainey bydd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas Undebol yn Festri Pontrhythallt. Disgwylir i annerch y Canon R.D. Robens, Llanfairpwll. Ei destun fydd 'Apêl Canu Gwernin Cymru'.

Bydd croeso cynnes i bawb yn aelodau a heb fod yn aelodau i ymuno â ni. Mae rhaglen amrywiol wedi ei pharatoi ar gyfer y tymor.

CROESO gartref i Mr Hugh Thomas, Gwenallt ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Da deall ei fod yn gwella, hefyd Mr T.W. Thomas, Berwyn, yntau wedi cael triniaeth lawfeddygol ac erbyn hyn wedi gwella.

Drwg gennym am yr anffawd a ddaeth i ran Mr Orwig Roberts, Elidir View. Gwellhad buan iddo.

Edrychwn ymlaen am weld Mrs N. Owen, Treigle yn dod adref, hithau wedi bod am ysbaidd yn yr ysbyty.

DYMUNA Alwyn a Lesley, Bryn Derwen ddiolch i'r holl deulu a ffrindiau am y lluo o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Susan Louise.

CLWB BLODAU'R GRUG: Cyfarfu'r Clwb yn y Sefydliad Coffa pnawn lau, Medi 8 pryd y cafwyd sgwrs gan Mrs Eryl Roberts, Tyddyn Alice am ei gwaith gyda'r anabl dan reolaeth adran Nawdd Gymdeithasol. Diolchwyd iddi gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol a Mrs Davies, Plas Gwyn.

Rhoddwyd y te gan Miss Kate O. Owen, Mrs Jones Evans, Mrs L. Hughes, Miss Jenkins a Mrs Griffiths, Dolannog.

Deallwyd yn ystod y cyfarfod fod un aelod, sef Mr Orwig Roberts wedi cael damwain a dymunwn wellhad buan iddo.

Hefyd mae dwy o'n haelodau yn yr ysbyty ar hyn o bryd sef Mrs Owen,

Trigle a Mrs G.A. Williams, Bryn Teg. Dymunwn wellhad buan iddynt.

Gyda thristwch, drwg gennym orfod cofnodi marwolaeth Mrs A.M. Roberts. Dymunwn fel Clwb bestyn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu yn eu profedigaeth.

Da gennym gael dweud fod yr oll o'r aelodau a fu'n wael er y cyfarfod diwethaf yn gwella'n foddhaol.

Enillwyd y raffl gan Mr Emrys Owen, 9 Hafan Elan. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 13.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Gerald, mab Mr a Mrs W.J. Griffith, Pant Tirion ar lwyddo i gael anrhyddedd ym mhob un o'r tair agwedd yn ei arholiadau Plymio, Safon Uwch yng Ngholeg Technegol Gwynedd Bangor. Mae Gerald yn gweithio fel plymar gyda'i dad.

YN YR AWYRLU: Dymuniadau gorau

i Neil Roberts, mab Mrs Gwyneth Roberts, 2 Bryntirion sydd wedi ymuno â'r awyrlu. Mae Neil wedi ei leoli mewn gorsaf yn Norfolk yn Nwyrain Lloegr.

BRYSIWCH WELLA: Mae Mrs E.J. Rowlands, Brynffynnon bellach wedi dod adref o'r ysbyty. Ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan iddi.

Hefyd Mrs E. Williams, 16 Hafan Elan sy ar hyn o bryd yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Hyderwn gael ei gweld gartref yn fuan.

COFIWCH

Cynhelir noson Goffi Merched y Wawr yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Hydref 11 am 7 o'r gloch. Bydd stondinau cacennau, poteli a phlanhigion ynghyd â gemau o bob math. Bydd y pwyllgor yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad gan yr aelodau tuag at y stondinau. Croeso cynnes i bawb.

CYNRYCHIOLI GWYNEDD



4 o blant Llanrug a fu'n cynrychioli tîm iau Gwynedd mewn Cystadleuaeth Medrusrwydd Beicio Cenedlaethol yn Ne Morgannwg yn ddiweddar. Pedwerydd oedd eu safle a dim ond un marc rhyngddynt a'r trydydd tîm. Llongyfarchiadau iddynt a'u hyfforddwr, Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon.

O'r chwith i'r dde: Lynette Evans, Siôn Llwyd Elis, Geraint Ellis a Siôn Dafydd Williams.

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Wavell Roberts
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa (Llanberis 871259)

DIOLCH: Dymuna Mair a John Maldwyn, 14 Tai Marian ddiolch i drigolion yr ardal am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar ddathlu eu priodas arian yn ddiweddar.

Dymuna Mt s Mrs David J. Davies, 1 Gwyrfa Terrace, Clwt-y-bont ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag at eu mab Wynn tra bu'n yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch i feddygon a staff yr uned ddamweiniau Ysbyty C a A Bangor. Diolch yn arbennig iawn i'w cydweithwyr yn y 'British Telecom'; hogiau Môn ac Arfon. Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd.

Hefyd dymuna Mr a Mrs Davies ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau am y lliaws mawr o anrhegion drudfawr, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Euraid. Diolch o galon i chwi i gyd.

Dymuna Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau a'r rhoddion a galwadau ffôn tra bu'n Ysbyty Môn ac Arfon. Hefyd diolch yn fawr iawn i fechgyn yr 'Eco' am y blodau hardd a gafodd ganddynt a'u dymuniadau da iddi. Dymuna hefyd bob llwyddiant i Mr William Orwig Williams gyda'i waith newydd fel Gohebydd gan hyderu y caiff yr un pleser â hithau. Pob lwc iddo. Llauer o ddiolch i bawb.

Dymuna Bobbie Williams, Arfon House, High Street ddiolch o galon am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniodd tra'n cael triniaeth yn ysbytai Môn ac Arfon a Bryn Seiont. Diolch yn fawr.

Carai Meirion a Nicholas Childs ddiolch i'w rhieni, perthnasau, ffrindiau, cymdogion a'u cydweithwyr am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Mrs C.J. Jones, 33 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'r plant, wryon, perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. A hefyd diolch i'w hwyres a'r gŵr sydd yn Ne Affrica am y blodau hardd. Dylai'r diolchiadau hyn fod wedi bod yn y rhifyn diwethaf.

Dymuna Miss Kathleen Jones, Prenteg ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, ei chymdogion a'i chyfeillion am y cardiau, anrhegion a phob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd i staff Ward E.N.T. a'r meddygon, Ysbyty Môn ac Arfon. Diolch yn fawr i bawb.

Y BADAU ACHUB: Yn ddiweddar fe gynhaliwyd Dydd Baneri at y Badau Achub. Cyfanswm casgliad Deiniolen, Dinorwig a'r Fachwen oedd £53.46: Mrs Phyllis Jones a Mrs N. Price £10.42; Mrs C. Davies, Y Llythyrdy £2.19; Mrs C. Price £10.72; Miss Heather Hughes £3.58; Miss Nicola Marzelos a Miss Lynne Parry £7.49; Mrs J. Hughes £4.30; Miss Iona Wyn Williams (Dinorwig a'r Fachwen) £14.76.

Roedd hyn yn cynorthwyo i wneud cyfanswm cylch Caernarfon yn £1,287.48. Y trefnydd lleol oedd Mrs C. Price. Diolch i bawb am eu hymdrech.

PLAID CYMRU: Cyfarfu pwyllgor y gangen yn Nhan y Caerau nos Lun, 12 Medi. Trafodwyd cynigion ar gyfer Cynhadledd y Blaid, sydd i'w chynnal yn Nhreorci rhwng Hydref 27-31. Gofynnir i bawb a hoffai gynrychioli'r gangen yn Nhreorci gysylltu â'r ysgrifennydd.

Adroddwyd bod y casglu aelodau wedi mynd yn dda iawn, a bod yna

nifer o aelodau newydd wedi ymuno.

Caiff y gangen ei chynrychioli mewn noson (agored) agortymor ym Mhlas Gwyn, Cricieth ar Hydref 14.

Bydd pedwar o aelodau'r gangen yn cymryd rhan mewn cwis ar Hydref 25, pryd y cynhelir noson gymdeithasol gyda changen Bethesda yng Nghanolfan Tregarth. Gofynnir i aelodau sydd eisiau mynd yno roi gwybod i'r ysgrifennydd: **Mrs Hannah Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig (870677).**

Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 am fis Medi: 1. £25, Rhif 7, Mr Hugh Owen, Ger Afon; 2. £15, Rhif 130, Mr R.O. Williams, Arfon House; 3. £5, Rhif 166. Mr Windsor Williams, Tai Marian.

PRYNHAWN COFFI: Cynhaliwyd prynhawn coffi ar ddydd lau, Awst 25 yng nghartref Mrs Griffiths, 5 Maes Gwylfa gyda'r elw er budd Cronfa Eglwys Llandinorwig. Roedd y prynhawn yn llwyddiant a dymuna Mrs Griffiths ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y cyfarfod misol o'r gangen yn y Ganolfan ar Fedi 5.

Croesawyd Mrs Gwyneth Jones a oedd yn ymweld â Deiniolen gan y llywydd Mrs Rita Parry Jones a chydymdeimlodd â Mrs Eirlys Lloyd Jones a Mrs Marion Wyn Williams ar golli eu modryb yn ddiweddar. Darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennyddes, Mrs Betty Wyn Davies.

Roedd pawb yn falch o weld Mrs Nancy Rowlands yn ôl ar ôl ei gwaeledd diweddar.

Penderfynwyd fynd i Sioe Ffasiynau nos Fercher Hydref 5 yng ngwesty'r Royal Caernarfon ac hefyd i Gyngor yr Hydref yng Nghricieth ar nos lau, Hydref 20.

Addawodd llauer o'r aelodau i gymryd rhan yn Sioe Gynnyrch a Gwaith Llaw Bontnewydd Medi 29.

Daeth Mrs Ellen Williams ag enghreifftiau o'i gwaith crosio i ddangos i'r aelodau ac mae hi wedi dechrau gwersi i'r rhai sydd yn awyddus i ddysgu'r graff yma.

Diolchodd y llywydd i Mrs Williams ac hefyd i Mrs Eirlys Lloyd Jones a Miss Kathleen Jones am roi'r te. Enillwyd y raffl gan Mrs J. Eirlys Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan ar Hydref 3 pryd y bydd Mrs Marion Williams, Mrs Eirlys Williams a Mrs Nancy Rowlands yn diddori'r cwmni.

Y GANOLFAN: Aeth rhagor na blwyddyn heibio ers pan yr agorwyd y Ganolfan, a llenwir y Pwyllgor Rhestr ar y defnydd helaeth a wneir o'r Ganolfan gan wahanol fudiadau yn y pentref. Mae'r gofynion o hyn tan ddiwedd 1983 yn arwyddo bydd gweithgareddau yn cymryd lle'n y Ganolfan ar bron pob noson waith yn ystod y cyfnod hwnnw, felly os ydych am hurio'r Ganolfan cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd ar unwaith.

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli penderynwyd peidio apelio am gyfraniadau am eleni oddi wrth Gyfeillion y Ganolfan - er y derbynnir gyda diolch pob rhodd ddaw i law'r Trysorydd, wrth gwrs! Penderfynodd y Pwyllgor geisio codi arian at redeg y Ganolfan trwy drefnu raffl yn cynnig gwobrwyon o £50, ynghyd â Noson Goffi i'w chynnal nos Wener 2 Rhagfyr a gwahoddir cefnogaeth y pentrefwyr i'r ydrechion hyn.

Trefnwyd i gynnal Cyfarfod Cyffredinol 1983 ar nos Wener 16 Rhagfyr. Nodwch y dyddiad a chofiwch ddod i'r Cyfarfod gyda'ch argymhellion at wella'r Ganolfan, wedi'r cyfan eich Canolfan chwi ydyw'r Ganolfan!

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG - Dyddiadur mis Hydref:

Oherwydd nifer o amgylchiadau bu rhaid i'r Ficer, gyda sêl bendith y Cyngor Plwyfol Eglwysig, newid trefn a nifer y gwasanaethau a geir yn yr eglwys. Dyma'r drefn ym mis Hydref:

Dydd Sul, Hydref 2: 8.30 Holy Communion (Saesneg), 2.00 Gwasanaeth y plant dan nawdd Cymdeithas y Beiblau. 6.00 Gymanfa Ganu dan nawdd Cymdeithas y Beiblau.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

YSGOL GYNRADD: Yn ystod yr wythnosau olaf o dymor yr haf cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol yn yr ysgol. Bu'r trip addysgiadol eleni i Glan Conwy i ymweld â'r hen felin flawd, Felin Isaf, ac yna i Barc Eirias, Bae Colwyn. Nos Fercher, Gorffennaf 13 cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Etholwyd y rhai canlynol yn swyddogion y gymdeithas am eleni: Llywydd, Mrs Pat Jones, Ysgrifennydd, Mr John Hugh Jones, Trysorydd, Mr Eurwyn T. Jones y Prifathro. Ar ôl y cyfaffod bu'r rhieni yn ymweld â'r gwahanol ddosbarthiadau i weld gwaith y plant, ac i gael sgwrs, a thrafodaeth ar waith a chynnydd eu plant. Dydd Llun, Gorffennaf 18 cyflwynodd Mr Gwyn Hefin Jones (Swyddog Addysg) dystysgrifau i'r plant a wnaeth yn dda, ac yn llwyddiannus yn y Gala Nofio, a gynhaliwyd yn Neuadd Arfon yn ddiweddar: Sally Miller, Gwyn Michael Andrew Williams, Andrew Wyn Roberts, Paul Allan Roberts a Kevin Wyn Owen.

UNDEB Y MAMAU: Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn yr Ysgol Gymuned nos Fawrth Medi 13 i ailddechrau tymor y gaeaf. Yn absenoldeb y Rheithor (oherwydd gwaeledd) fe gymerwyd y gwasanaeth gan Mrs Watkins. Ar ôl trafod materion oedd i law fe gafwyd sgwrs a ffilmiau gan Mrs Dorothy Jones. Mrs Jones oedd y westwraig hefyd; a diolchwyd iddi gan Mrs Marjorie Roberts. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi.

MARWOLAETH: Awst 25 yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont bu farw Mr Stanley Hughes, 2 Craig y Don gynt o Bryn Crwn.

Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

CLWB POBL Y CWM: Cychwynwyd tymor. Cafwyd adroddiad ariannol gan y trysorydd, Miss E. Hughes, Tan y Graig, a diolchodd y llywydd, ar ran yr aelodau, i Bwyllgor y Carnifal am eu rhodd sylweddol.

Rhoddwyd y te gan Mrs Williams, Pantafon a Miss Davies, Noddfa. Enillwyd y raffl gan Mrs G. Pritchard, Bryn Gwynedd a Mrs E. Jones, Seiont House. Estynnir gwahoddiad i aelodau newydd ymuno â'r Clwb.

LLONGYFARCHIADAU: i Michael John Williams, Llwyncoed ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

WEDI GWELLA: Da iawn yw deall fod Mrs Dora Roberts, Argraig, Mrs Sue Bailey, Ty'n'Rardd a Glyn Price, Tan y Graig wedi gwella ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: i blant y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau eleni.

PERERINDOD: Dydd Sadwrn, Medi 17 ymunodd aelodau a ffrindiau eglwys annibynnol cylch Cwm-y-glo ar eu pererindod blynyddol.

Y tro yma ymwelsom â 'Ty Mawr' Wybrnant ger Penmachno lle ganed yr Esgob William Morgan yn 1545. Ar ôl cyrraedd yno cawsom hanes yr

Dydd Sul, Hydref 9: 9.30 Cymun Bendigaidd. 6.00 Gosber a phregeth. Dydd Sul, Hydref 16: 6.00 Gosber a phregeth.

Dydd Sul, Hydref 23: 9.30 Boreol Weddi a phregeth. 6.00 Gosber a phregeth.

Dydd Sul, Undebol, Hydref 30ain: 10.00 Cymun Bendigaidd ym Mhenisarwaun. 2.00 Gwasanaeth leuenctid yn Llandinorwig. 5.30 Gosber a phregeth yn St Mair.

Bydd y newidiadau hyn yn galluogi'r Ficer i fod yn bresennol ym mhob gwasanaeth mewn mis arferol.

Esgob a braslun o'i yrfa, gan foneddiges oedd yno yn ein disgwyl.

Dyweddodd am deyrnged hanesydd o Sais i un o feibion gloywaf Cymru, gan mai iddo ef yn anad neb arall y mae i Gymru ddiolch am Feibl yn yr iaith Gymraeg. Cyfieithodd yr holl lyfr o'r ieithoedd gwreiddiol ei hun, a hynny mewn deng mlynedd. Ar ôl sylwi ar yr hen simdde fawr ac amryw o greiriau o oes yr Esgob rhaid oedd troi yn ôl ar hyd y ffordd gul droellog nes cyrraedd Penmachno ac yna i lawr trwy'r dyffryn hardd nes cyrraedd Llansannan ac ymweld â Chapel y Parchedig Henrys Rees.

Gan mai yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy y claddwyd yr Esgob rhaid oedd ymweld â'r fan honno hefyd a chael braslun o hanes cynnar yr Eglwys henafol a'r mynachdy oedd yno cynt gan foneddiges oedd yno yn ein disgwyl.

Tynnodd ein sylw at waith y plant yn arbennig yn gwneud mapiau a lluniau hardd i addurno'r adeilad.

Ar ôl seibiant o rhyw hanner awr rhaid oedd troi tuag adref a galw ym Mae Colwyn am luniaethl.

Rhoddwyd y diolch gan Mr William Roberts Llanberis a chanmol y gwaith a wnaeth Mr Donald Jones, Deiniolen a gyrieddyd y bws i wneud y daith mor lwyddiannus.

Dydd Sul ymunodd yr Eglwys unwaith eto, fore a hwyr yn Bosra Penisarwaun lle cafwyd cyfarfod y plant yn y bore a phregeth yn yr hwyr.

DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i Ruth, Plastirion, Llanberis ac Ieuan Wyn, Talafon, Cwm-y-glo ar eu dyweddia

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones gyda sgwrs ddifyr iawn gan Mr Dewi Tomos o Ddyffryn Nantlle. Dangosodd sleidiau hyfryd o ardal Carmel a Nantlle a sôn am y cefndir o straeon y Mabinogi, straeon gwerin a hanesion oes y chwareli. Roedd ganddo luniau o blant ei ysgol yn ymweld â'r hen dai a'r safleoedd ac yn amlwg yn mwynhau actio'r hen straeon. Diolchwyd iddo gan Miss Mat Pritchard.

Rhoddwyd y te gan y ddwy ysgrifenyddes, Mrs Marjorie Roberts a Mrs Iris Rowlands. Enillwyd gwobr y raffl gan Mrs Mair Williams. Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth a Phwyllgor yr Anabl gan Miss Pritchard a eglurodd fod y Rhanbarth wedi casglu £1,300 tuag at brynu offer darllen i blant â golwg gwan.

Hon yw'r bymthegfed flwyddyn i gangen Merched y Wawr Cwm-y-glo, un o'r rhai cyntaf i'w sefydlu yn y cylch. Edrychwn ymlaen at raglen ddiddorol eto'r gaeaf yma a bydd croeso i aelodau newydd i'n plith. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Hydref 18.

GWAITH GWNÏO A MÂN NEWIDIADAU

Cysylltwch â:

Mary Elliott neu Jean Jones	
3 Bryn Eglwys	Weirglodd Goch
Penisarwaun	Penisarwaun
Ffôn:	Ffôn:
Llanberis	Llanberis
872438	872516

HEN DOCYN RAFFL 1882

Yng ngholofn fy nhad Glan Rhyddallt y cefais yr hanes canlynol, Chwefror 9, 1948 yn yr 'Herald Gymraeg'.

Yn y 'Drych' yr ymddangosodd yr hanes y tro cyntaf yn y flwyddyn 1882.

Dyma'r ysgrifen ar y Tocyn Raffle:

no 285. Raffle bwysig i'w thynnu yn Hall Penygroes o dan arolygiaeth Mri William Chambers, Victoria Hotel: G.T. Williams a William Jones, Pant-y-Llyn, y Sadwrn diweddaf ym Mawrth 1882.

1st Prize. Tŷ coed yn cynnwys dwy ystafell 4 llath bob ffordd: gardd freehold, hefyd shed a chwt mochyn, safant ym mhrif heol y pentref poblogaidd a chynyddol Llanllyfni.

2nd Prize. Stove haearn dda.

3rd Prize. Dau wely haearn eiddo Robert Thomas, American House, Llanllyfni yr hwn sydd yn bwriadu myned i'r America. Tocyn Swllt."

el hyn yr ymddangosodd yr hanes yn y 'Drych' ar y dyddiad Chwefror 15, 1947. (Fel y dywedais eisoes yn 1948 y daeth yr hanes i golofn fy nhad Glan Rhyddallt i'r Herald.)

O'r 'Drych, 1947.

"Cafodd Hugh Parry mab y diweddar John Parry (clochydd) y tocyn Raffle wrth chwilio i mewn i hen gloc yn Nebo Llanllyfni. Nid yw yn profi fod y cloc wedi ei brynnu gan y gwr oedd yn ymadael i'r America. Y mae yn yr ardal lawer yn fyw ag sydd yn cofio y tŷ coed yn cael ei wneud. Robert Thomas, Tŷ Ffowcs y gelwid ei berchennog. Daeth yma wedi bod yn America. Ni chofiw'n pwy gafodd y lwc i gael y tŷ coed yn y Raffle ond ei berchennog yn awr ydyw John W. Griffith. Y mae yr hen dŷ coed yn dal wrth ei gilydd o hyd. Y mae John W. Griffith yn fab i gyfnither Robert Thomas. Diddorol fuaasai manylu ychwaneg ar gynnwys y tocyn. Faint o blant Llanllyfni sydd yn gwybod lle mae "Pant Llan" (Pant y Llyn hwyrach). Enw Saesneg sydd arno heddiw yn lle yr hen enw Cymraeg "Llifonwr."

"Hwyrach y gall rhywun roddi rhagor o hanes y tŷ coed a'r tocyn Raffle a manylion eraill diddorol.

Yr oedd Raffle yn bur boblogaidd yng Nghymru yn 1882 cyn i'r cwponau pel droed ddod yma i'n difetha. Cofiaf amser yn y chwarel pan fyddai rhywun eisiau

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

gwerthu rhywbeth megis iâr neu geiliog, neu erfyn go dda, byddai dau neu dri yn sicr o annog y gwerthwr gyda'r geiriau arferol, 'Gwna raffle arno neu arni, ceiniog neu ddwy am bob ticed. Cei dâl da'.

"Rafflwyd felly bob math o bethau ac wythnos o flaen y Nadolig byddai Raffle fawr ym mhob pentref bron, yn cynnwys hanner tunnelli o lo, a gwyddau, sachaid o datws, a hanner pwys o dybaco etc. Ond ni chofiaf raffle ar dŷ o'r blaen."

BEDD YN Y GOEDWIG

Os marw yng ngwres Amerig - a fyddaf

Caf fedd yn y goedwig:
A daw gwâr adar y wig
A chanant i'm llwch unig.

IONORON, GLAN DWYRYD

DANTEITHION NADOLIG

Wedi derbyn bocs o ddanteithion Nadolig o'r Amerig yn 1947 diolchodd fy nhad fel hyn:

Bro Engyl i'm hebryngwyd - yn y bocs

Llawn o bob danteithfwyd:
Nofia'r llong yr hen fôr llwyd
A melys wledd i'm haelwyd.

GLAN RHYDDALLT

MYGYN

Ow, heno ni ches bleser - o'm mygyn,

Megis fy hen arfer;
O am ambell bibell bêr
I'w sipio ar ôl swper.

EBEN FARD

NANT PERIS

DYMUNIADAU gorau i David Pritchard, Llys Awel ar ddechrau ei yrfa golegol yng Ngholeg Caerfyrddin a hefyd llongyfarchiadau iddo ar fod yn llwyddiannus yn ei brawf gyrru yn ddiweddar.

LLONGYFARCHION: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwilym S. Jones, Gwynant ar fod yn nain a thaid eto. Ganwyd mab i Esther ac Emyr S. Jones yn ddiweddar, Owain Gethin, brawd bach i Dyfan Rhys. Pob bendith i'r teulu bach. Ein cyfarchion hefyd i Mrs J. Searell Jones, Elidir ar ei phen-blwydd yn 92 ac hefyd ar fod yn hen nain.

O BANTRI BETH



Cyn dechrau rhaid cael yr offer yma sef:

pwced blastig
llwy bren
costrel ("demijohn")
clo aer
twmffat
bag hidlo
saiffon blastig

Byddaf yn prynu'r burum 'nutrient' a'r

tablei camden o siop sy'n gwerthu offer gwneud gwin. Mae cyfarwyddiadau ynglŷn â faint o furum i'w roi mewn galwyn, ar y bocs.

Gwin
Eirin Tagu

1 pwys Eirin Tagu
24 pwys siwgr
burum a 'nutrient'
galwyn o ddŵr

Rhowch yr eirin mewn bwced a'u gwasgu'n dda ac ychwanegu ½ galwyn o ddŵr oer. Rhowch 1 tablet camden yn y bwced. Berwch y siwgr mewn 3 pheint o ddŵr a'i adael i oeri a'i ychwanegu i'r stwnsh yn y bwced. Ychwanegwch y burum a'r 'nutrient' a gorchuddio'r bwced â lliain sychu llestri glân, a'i adael am 5 diwrnod yn unig.

Hidlwch y cymysgedd a'i roi mewn costrel a'i llenwi efo dŵr oer hyd at wddf y botel. Rhowch glo aer arno a'i adael mewn lle cynnes nes iddo orffen gweithio (o leiaf 6 wythnos).

Tynnwch y gwin oddi ar y gwaelodion gan ddefnyddio'r seiffon a'i roi nôl yn y gostrel am tua 2 fis cyn ei botelu.

Mae pob gwin cartre yn gwella wrth ei gadw.

GÊM CODI ARIAN



Yn ystod yr haf chwaraewyd gêm pêl-droed rhwng tîm o dafarn Pen Bont a thîm o gyn-chwaraewyr a chwaraewyr presennol Llanrug er mwyn codi arian i Gartref Bontnewydd. Casglwyd cyfanswm o £125. Yn y llun gwelir Mr Gareth Maelor yn derbyn yr arian ar ran Cartref Bontnewydd oddi wrth Mrs Carol Hughes (Penbont) a Mr Goronwy Roberts (Cadeirydd Clwb Llanrug).

AR WERTH

Pâr o esgidiau pêl-droed maint 13 - wedi eu gwisgo unwaith yn unig. Ffôn: Caernarfon 4051

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser




**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH

**WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

LLANBERIS

Gobebydd - Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)

LLONGYFARCHIADAU: i

holl blant yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau 'A' ac 'O', hefyd y rhain fu'n lwyddiannus mewn gwahanol bynciau yn y Coleg Technegol Bangor a Llandrillo.

Enillodd Rhian Cadwaladr, merch Mr a Mrs Bryn Parry, Mefeking, radd y B.A. ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae diddordeb ganddi yn y ddrama ac mae'n gweithio'n y theatr yn Aberystwyth ar hyn o bryd.



DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Ruth, Plastirion ar ei dyweddïad â leuan Wyn Rowlands, Talafon, Cwm-y-glo.

CASGLIAD EITHINOG: Cafwyd casgliad eithriadol o dda yn yr ardal eleni tuag at yr Eithinog Cheshire Hanes. Casglwyd y swm anrhydeddus o £60.93 a dymuna Mrs Eirlys Ellis ddiolch i'r casglyddion a'r pentrefwyr am eu cefnogaeth unwaith eto.

LLWYDDIANT YN Y SIOE: Cafodd Arwel Hughes, Stryd Yanci y wobryntaf a'r ail gyda'r iâr fach 'Silkie' sydd ganddo, yn sioe fawr Sir Fôn ym mis Awst.

MARWOLAETHAU: Mary Roberts: Ar Awst 23 bu farw Miss Mary Roberts, Sarn Bach yn ysbyty Bryn Beryl yn 85 mlwydd oed. Merch ieuengaf y diweddar John Roberts, Glanffrwd a'i briod ydoedd, ac er ei bod wedi gadael yr ardal pan yn 17 oed i weithio mewn siop yn Sarn Bach, ni cholodd ei chysylltiad â'i hardal enedigol na'r eglwys lle y magwyd hi. Fe'i magwyd ar aelwyd grefyddol ac er gadael y cartref a gwasanaethu fel siopwraig am dros drigain mlynedd, glynodd wrth y pethau gorau, roedd sylfaen ei bywyd mor gadarn, gyda phersonoliaeth dawel, dwys a phwylllog, a gellid hwyso ar ei barn bob amser, ac ymddiried cyfrinach iddi yn ddi-betrus. Bu'n ddylanwad da yn ardal Sarn Bach a Bwlchtocyn, yn aelod eithriadol o ffyddlon yng nghapel Annibynnol Bwlchtocyn, lle bu'n athrawes Ysgol Sul y merched ifanc ers blynnyddoedd. Tra y gallai dangosodd diddordeb yn Sefydliad y Merched, Llangian a rhoddai ei chefnogaeth i bob achos da bob amser.

I'w dwylo colof a fu -
Un haedda'i hanwylledu

meddai John Evans, Clwt-y-bont amdani.

Ar hyd y blynnyddoedd bu'n ffyddlon i'w theulu. Nid aeth yr un Wyl heibio heb iddi ddychwelyd gartref at ei chwaer, y ddiweddar Sarah Roberts, Glanffrwd, ac yna at Ellen ei chwaer ym Mryn Llwyd, Stryd Newton. Yn ystod yr ymweliadau cyson yma, ni fethodd bresenoli ei hun yn ei hen eglwys lle'i magwyd - Nant Padarn. Fe deimlir colled fawr a chwithdod ar ei hôl, ond hyfryd er hynny yr atgofion melys a ers amdani.

Trefnwyd yr angladd ddydd Sadwrn, Awst 27, gyda'r Parch John

Pritchard, gweinidog Bwlchtocyn a Mr Tudwal Humphreys yn gwasanaethu yn y tŷ, ac ar lan y bedd, y Parchn John Pritchard a Gwynfor Williams. Cydymdeimlir â'i hunig chwaer, Mrs Griffith John Griffiths (Ellen) a'r teulu oll yn eu colled.

Acw i Gapel Bwlchtocyn y bu
Drwy'i bywyd yn esgyn
Rhoes ei gair i'r lesu gwyn
I'w addoli a'i ddilyn.

GWILYM ROBERTS, TREFRIW

Y Parchedig Erasmus David Jones, B.A.: Daeth gwybodaeth trist i'r ardal am farwolaeth sydyn y Parch Erasmus David Jones, B.A. yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ar Awst 2.

Mab y diweddar Mrs a Mrs David Jones, 3 Blaen y Ddôl ydoedd a brawd hoff William C. Jones, John Rees Jones, Idwal Jones a'r diweddar Owen Jones.

Rheithor ydoedd dan ei alwedigaeth a bu'n gwasanaethu yn eglwys Llanllyfni, Penygroes a Chaernarfon ac fel rheithor yn eglwys Llandyfydd, Llanbryn-mair, Llangristiolus, Pennal a Chorris.

Cafwyd gwasanaeth angladdol yn ei eglwys olaf sef St Pedr yn y Cadwin Pennal, Sir Feirionnydd ar Awst 5 a fe roddwyd i orffwys yn y fynwent.

Cydymdeimlir â'i frodyr a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna brodyr a'r theuluoedd y diweddar Barchedig Erasmus David Jones, B.A. ddiolch am bob gair o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth sydyn gan drigolion Llanberis a'r cylch.

YN GWELLA: Da iawn yw deall fod y rhai a ganlyn yn gwella ar ôl ysbaidd yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth ac wedi dychwelyd gartref:

Mrs Eirlys Parry, Noddfa, Stryd Fawr; Mrs Nellie Davies, 7 Teras y Graig.

Yr wythnos ddiwethaf aeth Hettie, priod Mr Bob Hughes, Stryd Siarlot i ysbyty ym Mangor am driniaeth. Yno y mae o hyd yn Ward Penrhyn.

YN DAID: Llongyfarchiadau i Tommy Vaughan Roberts, Rallt Goch ar fod yn daid am y tro cyntaf. Cafodd Janet, ei ferch, fab bychan yn ysbyty Dewi Sant Bangor, ei enw yw Marc Vaughan.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau calonnog iawn i Gillian, merch Mrs Betty Williams, a'r diweddar Gynghorydd Trefor Wyn Williams, Bigil, 4 Coed y Glyn ar ei dyweddïad â Gwyn Ellis, mab hynaf Mr a Mrs Ieuan Ellis Jones, Bron Meillion, Rhostryfan.

O SINGAPORE: Er bod llawer ohonom fel cymdogion wedi cael croesawu Sylvia, merch Bob a Hilda Williams, Rhes y Faenol yn ystod mis Awst pan ddaeth gartref er mwyn mwynhau'r Eisteddfod yn Llangefni roeddyd mor falch ag erioed o gael clywed ei llais yn sgwrsio o Singapore ag Alun Williams ar ei raglen 'Alun yn Galw'.

Er ei bod wedi teithio llawer gyda'i phriod a'i theulu bach, nid yw wedi newid dim, a da ydyw ei chlywed yn siarad Cymraeg mor raenus a di-lol. Brysied y dydd y cawn ei chroesawu gartref unwaith eto.

CLWB Y MAMAU IFAINC: Dechreuodd Clwb y Mamau Ifainc eu cyfarfodydd am y gaeaf gyda sgwrs ddifys iawn gan Mrs Dyson ar enwau henffasiwn, a dilynwyd y sgwrs gyda chwpaned o de wedi ei ddarparu gan rai o'r aelodau, Mrs Ann Jones, Mrs Lynn Ellis, Mrs Janet Vaughn. Byddai'r clwb yn falch o groesawu aelodau newydd i'r cyfarfod nesaf a gynhelir yn y Ganolfan ar nos Ferch, am 7.30 o'r gloch.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd gwasanaeth y mis o aelodau Undeb y

Mamau Eglwys Sant Peris a Sant Padarn dan arweiniad y Parch R.W. Cherry. Cafwyd anerchiad ddifys iawn ar Yugoslavia gan Mr P.E. Clegg a dangosodd ffilmiau gwych o'r wlad honno. Diolchwyd iddo gan Mrs Denness Hughes, gyda Mrs Glyn Williams yn eilio'r diolchiadau. Rhoddwyd y Sosial a ddilynwyd yr araith gan Mrs Glyn Williams, Mrs Denness Hughes a Mrs Cheesman.

CLWB METHEDIG ERYRI: Ar hyn o bryd mae aelodau'r Clwb Methedig yn ymgynnull yn Hafod Elan Llanrug yn wynsol. Yn y ganolfan y bu'r aelodau'n cyfarfod, ond oherwydd yr atgyweiriadau yn y Ganolfan, gorfu iddynt symud i Lanrug, ond wedi cwblhau'r atgyweirio a'r adeiladwaith byddant yn dychwelyd i'r Ganolfan at eu gweithgareddau.

PERERINDOD YR ANNIBYNNWYR: Ddydd Sadwrn, Medi 17 aeth tua 40 o oedolion a phlant ar bererindod wedi ei drefnu gan Eglwys Annibynnol Ebenezer, Bosrah, Nant Padarn, Jerusalem a'r Tabernacl i ymweld â Thŷ Mawr, Wibernant, cartref yr Esgob William Morgan. Yn y tŷ cafwyd hanes y teulu, a phlentynod William Morgan hyd iddo gychwyn ar ei yrfa yng Ngholeg Caergrawnt.

Oddi yno cyfeiriwyd y daith i Lansannan, i ymweld â Chapel Coffa Henry Rees, ac oddi yno i Lanelwy i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol. Yno eto cafwyd anerchiad gynhwysfawr iawn ar hanes yr Eglwys, ei hadeiladau a'i hysgolion. Diweddyd y daith ym Mae Colwyn lle y mwynhawyd lluniaeth. Diolchwyd i Mr Donald Jones, Ebenezer am drefnu'r daith.

GWASANAETH TEULUOL: Fore Sul, Medi 18 trefnwyd Gwasanaeth Teuluol yn Eglwys Bosra, dan arweiniad Mr John Hugh Hughes, prifathro Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Rhoddodd anerchiad dymhorol iawn, a'i destun oedd 'Gweithgarwch' a chafwyd cyfraniad gan Ysgolion Sul Ebenezer, Bosra, Jerusalem a Nant Padarn yn portreadu gweithwyr yn amser lesu Grist, sef y Pysgotwyr, y Bugeiliaid, yr Amaethwyr a'r Disgyblion. Pregethwyd yn yr hwyr gan y Parch Erfyl Blainey o Gaernarfon.

GENEDIGAETHAU: I Agnes a Clifford Jones, Stryd Warden ganwyd mab bychan yn Ysbyty Môn ac Arfon.

I Jane a Coiin, 50 Dôl Elidir ganwyd mab bychan yn yr un ysbyty. Ei enw yw Barry.

Mewn ysbyty yn Huntingdon cafodd Helen ac Elwyn ferch fach - Gwenan. Gwneir Wilbert a Nellie, Rock Teras yn nain a thaid am yr eildro.

DIOLCH: Dymuna Nellie, priod Wilbert Davies, Rock Terrace ddiolch i'r teulu a'r cymdogion a'u ffrindiau ymhell ac agos, am y llu cardiau a'r anrhegion a gafodd tra'n yr ysbyty. Ni wnaiff anghofio caredigrwydd y nyrsus yn Ysbyty Môn ac Arfon ac Ysbyty Eryri ychwaith.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau i ti Bethan ar gyrraedd dy ben-blwydd yn 18 oed ar Hydref 3. Dymuniadau gorau oddi wrth mam, dad a Geraint.

Deallwn hefyd fod Bethan wedi llwyddo gydag anrhydedd mewn arholiadau 'City and Guilds' Llundain dan nawdd Cwrs Manpower yn y pwnc coginio arlwyio a pharatoi bwydydd. Mae wedi ei phenodi i swydd yn yr adran fwyd gyda MANWEB a bydd yn dechrau ar ei gwaith rhag blaen. Da iawn Bethan - dymunir i chwi bob llwyddiant ymhellach yn eich gyrfa.

BEICIO: Yn ystod gwyliau'r haf bu'r Heddeidwad Terry Jackson yn rhoi hyfforddiant i grŵp o blant ifainc ar reidio beic a'r pwysigrwydd o gymryd gofal pan ar y ffyrdd gyda'r drafndiaeth brysus sydd yn digwydd yn ystod wythnosau a misoedd yr haf. Cafodd y plant brawf gyda'r Heddeidwad Elwyn Parry yn eu harholi a dyma'r rhai a fu'n llwyddiannus yn y prawf: Darren Ellis, Neil Ellis, Shan Pierce, Justin Torr, Philip Cousins, Aneuryn Foulkes, Elwyn Foulkes, Lliffon Foulkes, Bryn Roberts, Bruce Turner, Stacey Turner, Jennifer Glanida, Ruth Cousins, Anna Roberts, Helen Gartside, Miriam Thomas, Cathy Jones.

Cyflwynwyd Tysytysgrif i'r plant gan Heddwad Gwilym Hughes o Gaernarfon.



PRACTICAL CREDIT SERVICES LTD

2 WELLFIELD COURT
CAERFFYNNON/WELLFIELD
BANGOR 353269

Ein cynrychiolydd newydd ar gyfer ardal
Llanrug/Llanberis yw

Mrs VERA PRICE
TANYGRAIG
CWM-Y-GLO

Ffôn: LLANBERIS 870550
Gwasanaeth Credyd Preifat a Chyfrinachol

LLANBERIS (Parhad)

Newyddion Ysgol Dolbadarn

Gwellhad:

Dymunwn wellhad buan i Mrs Nellie Davies (glanhawraig). Mae Mrs Davies wedi bod yn yr ysbyty ym Mangor yn cael triniaeth lawfeddygol.

Croeso:

Estynnwn groeso cynnes i Mr Teifion

Thomas, Caernarfon sydd wedi ymuno â'r staff y tymor hwn. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Tystysgrifau:

Derbyniodd rhai plant dystysgrif am bresenoldeb cyson: Julie Baylis, Manon W. Williams, Euron Thomas, Arfon Owen, Kevin Edwards, Bethan Owen, Lyn B Davies, Christian Parr, Sharon Roberts, Lliffon Ffoulkes, David Roberts.

Tŷ BACH TWT?



Dim o'r fath beth! 'Dydy trigolion Llanberis ddim yn atseinio geiriau'r hen gân o weld cyflwr dychrynlyd y tŷ bach hwn ger y llyn. Er bod rhai o'r cyngorwyr lleol wedi cwyno'n swyddogol a'r gofalwr yn ymdrechu i gadw'r lle'n lân, y farn gyffredinol o blith y bobl leol a'r ymwelwyr yw ei fod yn gwbl anffodddhaol ac yn amhosibl i'w ddefnyddio. Tynnwyd y llun Medi 21.

Parhad o'r dudalen flaen
lwyddiant eleni!

Yn y gystadleuaeth sydd wedi ei threfnu ar gyfer chwaraewyr gorau pob cynghair ar arfordir y gogledd, llwyddodd Gareth Grindley o glwb Deiniolen i gyrraedd yr ail rownd.

Ceisia Clive, sydd ond yn 22 oed, ymarfer mor gyson ag y mae amser a chyfle yn ei ganiatáu. Mae'n gosod safonau uchel iddo'i hun ac fe lwydda i ennill y mwyafrif o'i gemau cynghair; cystadlaethau ac i greu toriadau uchel. Ei doriad uchaf yw 105 nos Sadwrn Medi 24 wrth ymarfer ar gyfer y gystadleuaeth 'Pro-Am' ym Mhrestatyn. Dyma'r eildro i Clive guro'r cant; 101 oedd ei doriad uchaf cyn hyn.

A'r Eco ar fynd i'w wely clywsom i Clive gyrraedd y bedwaredd rownd ym Mhrestatyn. Colli fu ei hanes yno o ddwy ffrâm glôs iawn i'r chwaraewr proffesiynol Jim Donnoly. Roedd Donnoly yn aelod o dim Cwpan y Byd yr Alban y llynedd. Mae ei ddau frawd iau hefyd sef Gerald (21) a Nigel (16) yn chwarae i dim snwcer

Llanrug.

Pan oedd teulu Pant Tirion ar wyliau mewn gwersyll yn Essex yn ddiweddar enillodd Nigel gystadleuaeth snwcer dan 16, a chystadleuaeth dartiau dan 16 y gwersyll, ac enillodd benwtyhnos o wyliau yn rhad ac am ddim am mai ef oedd chwaraewr tenis bwrdd mwyaf addawol y gwersyll.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r brodyr talentog.

LLANRUG (parhad)

MERCHED Y WAWR:

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn y Ganolfan nos Lun, Medi 19 o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Williams. Cafwyd noson hynod o ddiddorol ac addysgedig gan Mr Selwyn Griffith, Bethel. Talwyd diolchiadau iddo gan Mrs Helen Sutherland a Mrs Gwen Hughes. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwladys Jones a Mrs Margaret Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs Beryl Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 10 o dan ofalaeth Nyrs E.A. Jones, Felinheli.

DOSBARTHU YN NHAN-Y-COED

Diolch i Mrs Lola Butler, Haddef am ei gwaith fel dosbarthwr yr 'Eco' yn yr ardal ers amser sefydlu'r papur.

Croeso i'n plith i Miss Megan Griffith, Llys Meredydd, y dosbarthwr newydd a phob hwyl yn y gwaith.



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWC...

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffonwch cyn 10 o'r
gloch y bore

**BRINLEY
ROBERTS**

Peintiwr a
Phapurwr,
Glanhau
Ffenestri
a Mân Waith
Atgyweirio

Ffôn: LLANBERIS
871101

EISTEDD YN Y BWLCH

Mae rhywun neu rywrai wedi mynd ati'n fwriadol i adeiladu dau dŷ bach gefn-gefn â'i gilydd ym Mwlch Llanberis yng nghanol y Parc Cenedlaethol. Pan ymwelodd gohebwyr yr 'Eco' â'r safle'n ddiweddar daethant i'r farn nad oedd yn bosib i'r fath adeiladwaith o'r sustem bibellu gysylltu fod wedi pasio unrhyw reolau cynllunio. Ond er i'r mater gael ei ddwyn gerbron Mr Alan Jones, Prif Swyddog y Parc ddiwedd Gorffennaf, dal i sefyll yn y Bwlch y mae'r toiled.

Swatia'r "crefftwaith" tu ôl i graig ar lethr tua hanner canllath o'r briffordd ger Cerrig y Gromlech. Mae saeth a'r enw 'Toilet' wedi eu peintio ar graig gerllaw. Adeilad blêr ydyw, gyda cherrig wedi eu codi i ffurfio'r muriau a tho o ddarnau o bren a cherrig yn eu dal; sach yw'r drws.

Er nad yw'r gwaith plymio fawr gwell haedda farciau uchel am ymdrech a dyfeisgarwch. Mae pibell blastig yn cario dŵr am tua 200 llath o nant yn uwch ar y llethr, ac mae ei llwybr wedi ei guddio â cherrig (gweler llun y dudalen flaen). Ar derfyn y bibell mae arwyddion fod yr "adeiladwyr" wedi dechrau gwneud "bocs" o gerrig a sment i'r pwrpas o gronni'r dŵr.

Mae pibell arall wedi ei gosod i gario'r carthion o'r tŷ bach, ond anodd iawn yw gweld i ble yr



arweinia honno. Yn wir, roedd olion carthion a phapur i'w gweld o gwmpas y creigiau.

Nid yw'r "Parc" wedi ymateb eto i gais ysgrifenedig y Cyngorydd Dei Tomos a chlerc Cyngor Cymdeithas Llanberis, Islwyn Jones, iddynt "chwalu'r tŷ bach a thacuso'r safle". Gwel y Cyngor fod yma berygl i iechyd yn enwedig os yw'r carthion yn debygol o fod yn mynd i sustem cyflenwad dŵr Nant Peris.

Ychydig ddyddiau cyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg gofynnodd yr 'Eco' am ymateb swyddogol y Parc Cenedlaethol. Dywedodd Mr David Archer eu bod yn ymwybodol o'r broblem a'u bod ar hyn o bryd wedi cysylltu â'r Bwrdd Dŵr, yr Awdurdod Iechyd, a'r Swyddfa Gymreig sef perchnogion y tir ynglŷn â'r mater. Nid oedd yn bosib gwneud datganiad pendant, meddai, cyn cael ymateb y cyrff hyn.

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR,
CEUNANT, TAN-Y-COED
a BETWS GARMON

GARETH JONES
Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS,
CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL
a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,
Hyfrydle Road, Capel Coch,
Llanberis (870471)

DEINIOLEN, PENISARWAUN,
SEION, LLANDDEINIOLEN,
TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES
Clarke Terrace, Ffordd Llanberis,
Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW'
YNGLŷN Â'CH
HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR
EICH AELWYD

Prudential

DDOE AC ECHDOE

gan Goronwy Owen

"Fedri di roi eda'n y nodwydd i mi?"

"Medra."

"Dyma ti. Glycha hi ar dy dafod."

"Pam 'da chi'n methu?"

"Ma' fy llygad i'n rhy wan."

"Ond ma gynnoch chi sbectol?"

"Dydy hi ddim llawer o iws, weldi."

Roeddwn i'n bedair, a nain Llainwen dros ei phedair ugain, a'r sbectol fach bres ar ei llygaid caredig yn ddim ond esgus. Yn sir, pan oedd hi'n darllen yr hen Feibl Mawr, credaf ei bod yn darllen fwy o'i chof nag o beth oedd hi'n ei weld.

"Diolch i ti. Fedri di roi cwlwm ar yr eda hefyd?"

"Dydw i ddim wedi dysgu rhoi cwlwm."

"Fel hyn, weldi."

Gwyliais hi'n clymu gwaelod yr eda hefo un bys a bawd, yn ddeheuig.

"Be ydy'r lymphia 'na sy ar 'ch bysedd chi?"

"Cric 'mala."

"Ydyn nhw'n brifo?"

"Ydyn weithia."

"Sut dachi'n i cael nhw?"

"Drwy olchi crysau gwlanen dy daid a dy dad a'r hogia eraill, am flynyddoedd ar y cownt yn y cefn 'na."

Ac roedd bysedd, dwylaw a breichiau nifer fawr o ferched y pentre wedi'u hanffurfio a'u hanstwytho hefo'r cryd cymalau.

Pum mlynedd yn ddiweddarach.

"Dydy hi ddim rhaid i ti fynd i'r ysgol y bore 'ma."

Arhosodd y llwy uwd, hanner

ffordd rhwng y bowlen a'm ceg. Edrychais ar mam. Nid ar chwarae bach y cawn i aros adra o'r ysgol.

"Gei di aros adra heddiw i droi'r mangl i mi."

Mae'n rhaid ei bod mewn poenau difrifol i'm cadw gartra, a threuliais y bore hefo hi yn yr hen sied lechi, yn cario dillad, a throi handlan olwyn yr hen fangl pren.

Fel y rhan fwyaf o'i chyfoedion, cafodd mam fywyd caled. Yn ifanc, anfonwyd hi a'i chwaer, Nans, allan i weini. Bu'n gweithio yn Llundain, Ysgol y Rydal, Southport, Capel Curig ac ym Mron Eryri. Adroddai straeon diddorol am bob safle, a soniai am y merched eraill o'r pentre oedd wedi cydweithio â hi, fel Mrs Jonah Owen, Anti Cadi a Mary Jones. Oedd, roedd o'n fywyd caled, ond agorodd ddrysau i'r to a godwyd ddiwedd y ganrif ddiwethaf, a bu'n fodd iddynt fagu profiad a hunan hyder.

Y tro cyntaf yn Llundain, byddai'n rhaid iddi gario pwcedi o ddŵr bob bore i olchi'r grisau oedd yn arwain i'r drws ffyrnt. Ie, bob bore cofiwch, boed hi law neu hindda. Faint ohonoch chi genod deuddeg a thair ar ddeg, os dyna oed mam ar y rpyd, hoffai fynd ar eich gliniau i scrwbio stepan y drws ar fore o rew neu eirlaw.

Yn Ysgol y Rydal, roedd y morynion yn cysgu ar lawr uchaf yr adeilad, ac yn cael eu poeni gan ysbryd swnllyd, a barodd ofn iddynt droeon, ond o gofio mai ysgol

breswyl i fechgyn ydoedd, coeliaf fod digon o resymau dros fodolaeth y bwgan.

Yn Southport, roedd hi'n coginio, ac yn anfodlon, oherwydd fod gŵr y tŷ yn dod â chimwchiaid a chrancod byw gartre, a rhan o'i gwaith hi oedd rhoi'r rhain mewn dŵr berwedig. Cwynau ei bod yn eu clywed yn gwichian. Gwaeth na hyn, disgwyliid iddi flingo a pharatoi adar ac ysgyfarnogod oedd wedi bod yn hongian dros amser. Fel y dywedai yn aml,

"Mae rhywbeth bach yn poeni pawb ym mhobman."

Sais oedd Mr Creek, ym Mron Eryri, a hoffai ddringo'r mynyddoedd i chwilio am lysiau. Roedd o braidd yn rhy fentrus, ac yn aml rhaid oedd i blismon y pentre fynd yno i dorri newydd drwg. O hen arferiad wrth ei weld, geiriau cyntaf Mrs Creek fyddai,

"Now sargeant, tell me all."

Credaf fod mam wedi mwynhau gweithio yno, oherwydd erbyn hyn roedd hi a 'nhad yn caru, ac yn cael gweld ei gilydd yn rheolaidd. Un dydd Sul, roedd hi ac Anti Cadi wedi cwcio cyw iâr i ginio, a phwddin fala hefo hufen ffres ar ei ôl. Ar ôl capel roedd Rhys Jones a 'nhad, yn ôl natur llancia ifanc, wedi gwneud eu ffordd i'r ffarm, ac yn ddjarwybod i'r perchnogion, cawsant swper da o'r gweddillion. Dydd Llun dyma Catrin Jones at mam a dweud,

"Maen nhw eisiau'r gweddill o'r cyw i ginio heddiw. Be wnawn ni? Does dim bron ar ôl."

"Dwed wrthyn nhw fod y gath wedi ddwyn o."

Fe dderbyniwyd yr esgus, ond ar ddiwedd y cinio, dyma alwad am y jiwg o hufen ffres. Roedd digon ar ôl o hwn, a dyma mam yn estyn y jiwg i lawr oddi ar y silff, ond er braw y ddwy roedd corff llygoden bach wedi boddi ynddo. Wel beth fydddech chi'n ei wneud? Tynnu corff y lleidr llipa allan wnaethon nhw ac anfon y jiwg i mewn, gan obeithio'r gorau, a mawr eu rhyddhad o glywed gŵr y tŷ yn dweud,

"This cream is really delicious, my dear."

Aeth mam i Lundain am yr eildro, a dangosodd fy nhad, yn ei ffordd ei hun, ei deimlad tuag ati, oherwydd un pen wythnos Gŵyl Lafur, aeth bob cam i Lundain i'w gweld, ar ei feic.



Gadawodd y nos Wener, ar ôl swper chwarel, dros y Pass ac ar yr A5. Cysgodd yng nghyffiniau Sir Gaer y noson honno, mewn tŷ gwair, reidiodd trwy ddydd Sadwrn, a chael caniatad i gysgu mewn 'sgubor yr ail noson. Cwestiwn cyntaf pob ffarmwr oedd, "Have you any matches?" a'r ail, "Would you like something to eat?" Roedd yna gymwynasgarwch rhyfeddol yn y wlad, ar droad y ganrif.

Cyrhaeddodd Belgravia ar ôl cinio ddydd Sul, ac wedi hw ha fawr, rhoddwyd caniatad i mam fynd allan hefo fo am hanner awr, dim munud mwy, a siars bendant i fyth drefnu'r fath anhwlustod wedyn. Wedi cael cwmni'i gilydd am ddeng munud ar hugain, cafodd fy nhad baned o de, a'i droi am adre. Cyrhaeddodd yn ôl yn oriau mân bore ddydd Mawrth, ac

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes


Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro



HEN GYMERIADAU LLANRUG 2 – HARRI'R BARBWR

FY NGHOF cyntaf o gael mynd i dorri 'ngwallt oedd at Henry Thomas Parri, y Barbwr, a drigai mewn tŷ ar gyfer Talybont. Mynd yno gyda 'nhad wnes i gan ei fod ef yn dipyn o lawiach gyda'r barbwr. Cofiaf i'm mam ddweud mai fy nhad a berswadiodd Harri i ddechrau busnes ac a fu'n ymorol am gadair bwrpasol iddo.

Fel ymhob siop barbwr, rhaid oedd eistedd ar fainc isel hir i aros fy nhwrn ac er mor winglyd fyddai bachgen yn ei faboed, rhaid oedd ceisio ymddwyn yn dawel, gwranddo ar sgwrs y barbwr ac ymateb y gwahanol gwsmeriaid i'r pwnc a fyddai ar dro. Byddai rhai yn bur hyf ar y barbwr ac yntau yn trin ei gwsmeriaid yn ôl eu haniau, gan bryfocio neu blagio neu ymateb i ddiniweidrwydd y gwahanol gymeriadau.

'Doedd neb yn mynd i wyllo pryd y deuai ei dwrn ond chwi eich hunan, felly rhaid oedd cofio pwy oedd ar y fainc o'ch blaen a pheidio meiddio dwyn tro rhywun arall.

O bryd i'w gilydd deuai Siwsi, neu Shiw, fel y galwai Harri ei chwaer, yno i dacleso dipyn ar y llawr gyda'i brws, rhag cario y gwallt gyda'r traed i bobman. Weithiau deuai â phaned o de i iro llwnc sych y barbwr. Rhwng sgwrsio a thrafod gwalltiau byddai ei lwnc yn bur gras mae'n siŵr.

I dorri ar yr undonedd, byddai ambell i henwr am gael eillio ei farf a dyna atyniad newydd i sylwi arno. Gelwid am ddŵr poeth o'r gegin o'r tegell mawr ar gwr y pentan, yna gweithid y brwd siafio i gynyrchu trochion sebon. Cofiaf y byddai'r diweddar Iorwerth Williams yno fel trochwr i'r barbwr yn taenu'r sebon ar yr ên a'r cernau a'u rhwbio yn rymus i feddalu'r blew garw.

Ar ôl yr orchwyl hon byddai galw ar y barbwr i hagi ei rasel agored ar y strap wrth gefn y gadair, ei throchi yn y dŵr berwedig, ac yna dechrau torri'r farf o'r clust i lawr y cern at yr ên. Deuai sŵn cras fel papur emri pan dorrid y gwancifiau blew. Tynnid yr wyneb i bob ffurf, er lledaenu'r croen i gael gwanaif deg. Byddai rhôl o bapur gwyn wrth gefn y gadair i sychu'r trochion blewog o lafn y rasel. 'Rôl darfod yr orchwyl edrychai'r gŵr allan o wyneb llyfn a chai gadach llaith a lliain gwyn i sychu'r trochion a fynnai llynu wrth y ffroenau a bonau'r clustiau.


'Doedd wiw i fachgen ysgol feddwl am fynd i gael torri ei wallt ar nos Wener neu nos Sadwrn, gan mai dyma noson yr Eillio Mawr cyn y Sul. 'Doedd y 'safety razor' ond prin

gadw plentyn yn ddiddig. Holi hogyn pwy oeddwn i ac yna, "O! hogyn Ifan Saer wyt ti? Un o'r saerdines felly." Gwyddai y byddai'n siŵr o'm plagio felly gan fy mod yn un o deulu mawr.

Daeth rhyw ffasiwn i ferched ifanc gael torri eu gwallt yn gwta yn y 20au. Cyn hyn seintwar y gwŷr a'r bechgyn fuasai tŷ'r barbwr, ond daeth tro ar fyd a gwelid genethod yn mynychu'r lle i gael y 'cyt cwta'. Gofynnai'r hen farbwr, cyn dechrau'r orchwyl, "Be fydd hi: Shemi 'nta Shingle?" Sut y llwyddai i wneud bywoliaeth mewn dyddiau mor fain? Tair ceiniog am dorri gwallt a dwy geiniog am eillio barf. A chymryd fod isrif cyflog y dyddiau hynny tua'r dwy bunt, mwy neu lai, byddai'n rhaid iddo gael yn agos i ddau gan cwsmer i dalu ei ffordd.

Erys coffa annwyl am ymddygiad yr hen farbwr. Bu'n gymeriad diddan a wnaeth ei ran yn ddeheuig iawn yn Ysgol Sul Pontrhyallt, fel athro i do ar ôl to o ieuencid yr ardal.

R.W.



roedd yn ei wal yn dechrau gweithio am saith o'r gloch.

Ysgwn i faint o hogia'r ardal heddiw fyddai'n gwneud peth cyffelyb? Dwy'n siŵr er tloidi a chaledi'r amser, fod 'na lawer i stori fach fel hyn, yng nghof rhai ohonoch, lle roedd ysbryd a chalonau'r pentrefwyr yn goresgyn yr holl rwytrau a threialon.

Meddyliai 'nhad y byd o'r hen feic, hefo'i handlan 'North Road Drops' a'i lamp garbaid. Welais i erioed mohono yn ei reidio, ond bob hyn a hyn, rhoddai rwb fach iddo hefo cadach glân.

Cafodd fy mam hefyd wared o'r hen fangl pren, a daeth un bach rwber ysgafn yn ei le. Pe tai wedi cael ffortiwn, fyddai hi ddim balchach. Gwyn eu byd, y rhai sy'n ddiolchgar am y pethau bach.



Llun trwy garedigrwydd Miss Buddug Williams, Glan Padarn, Llanrug.




**BECWS
DEINIOLLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

BETHEL

Gohebydd - Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

MERCHED Y WAWR: Daeth nifer o aelodau, hen a newydd, ynghyd i'r ysgol ar ddechrau'r tymor newydd, nos Fercher, Medi 14. Treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Lleisiau'r Mignedd o dan arweiniad Mr Maldwyn Parry. Cafwyd eitemau amrywiol gan aelodau'r parti yn ogystal â sawl cân. Diolchwyd iddynt gan Mrs Glenys Griffiths. Aelodau'r pwyllgor oedd y gwestwagedd ac enillwyd y raffl gan Mrs Sally Hughes a Mrs Elizabeth Jones.

Hefyd yn ddiweddar, bu amryw o'r aelodau mwyaf egniol ar daith gerdded nodedig o gwmpas yr ardal i gasglu arian i'r gangen. Darparwyd paned i'r cerddwyr gan Mrs Mair Read a Mrs Mabel Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Hydref 12 pryd bydd swyddog o'r heddlu yn sôn am atal troseddau.

Y FRENHINES CARYS: Dymuna Carys Owen, Berwyn a'i rhieni Tom a Nan Owen, ddiolch am y llu anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar achlysur ei choroni yn Frenhines Carnifal Bethel.

Coronwyd Carys yn y carnifal ar Orffennaf 2il. Yna y nos lau canlynol aeth hi a'i gosgordd i'r Felinheli i goroni Brenhines Regatta, Enfys Haf. Dydd Sadwrn Gorffennaf 9 yr oedd yn Carnifal Deiniolen ac yna ar y 16 yn Llanberis a Chaernarfon.

Wedyn fe aethant i Gaergybi ac i Benygroes. Hoffai'r genethod i gyd ddiolch i Mrs Catherine Jones am wneud eu dillad mor ardderchog ac i Mrs Sheila Roberts am eu dysgu.

DAWSWYR MORRIS: Cychwynnodd y genod eu gyrfa eleni yng Ngharnifal Bethel. Roeddynt wedi methu mynd i Gaernarfon Mehefin 11 oherwydd y frech goch. Cawsant ddiwrnod bendigedig o braf ym Methel ac yna ar Orffennaf 16 fe fuont yng Ngharnifal Llanberis yn y prynhawn, a chael dau wobwr gyntaf. Yr un dyddiad yr oeddynt yn cymryd rhan yn yr Wyl Haf yng Nghaernarfon gyda'r nos. Yn y fan honno daeth y trŵp coch yn ail. Yn ychwanegol enillodd Sian Llywelyn Jones fedal am yr arweinydd gorau.

Nos Wener, Gorffennaf 22 yr oedd Noson Agored yn y Neuadd ac fe wnaethpwyd elw o £23 at y gronfa. Dangoswyd fideo o'r carnifal gan Mr Tom Jones am ddim. Ar ôl y fideo cyflwynodd y Cyngorydd Sam Jones anrheg i'r chwaer Beti Jones ar ran Bethel, Seion a Llanddeiniolen ar ei hymddeoliad.

Rhodddwyd tusw o flodau iddi gan y Frenhines Carys ac fe roddwyd blodau iddi ran ran y Dawswyr Morris gan Gwen Jones a Siân Llywelyn Jones.

Enillydd y raffl oedd Mrs Diane Hughes, Afallon. Hoffem ddiolch yn arbennig i Mr Tom Jones am ei garedigrwydd ac i bawb am wneud y noson yn llwyddiant. Ar ôl hynny, aeth y genod i Gaergybi a Phen-ygroes.

I ddiweddu'r tymor cafwyd noson allan yng ngwesty Fictoria yn Llanberis ac Medi 16 ac mae ein diolch yn fawr i Mr Graham Sutherland a'i staff am eu croeso a'u caredigrwydd.

I gloi, hoffai Anti Nan ac Anti Gwenda ddiolch o galon i'r mamau am eu hanrheg bendigedig, a mawr yw'r gobaith bydd y flwyddyn nesaf yn llwyddiannus eto.

DIOLCH: Dymuna Mr Tom Owen, Berwyn a Mrs Lydia Hughes, Corra Lin ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor ac ar ôl dod adref.

Yn ychwanegol dymuna Nan, Berwyn ddiolch i'w llu ffrindiau am eu

cymorth tra bu ei gŵr a'i mam yn yr ysbyty.

Diolch o galon i bawb.

LLONGYFARCHIADAU: i Non, merch Mrs Sheila Jones a'r diweddar Mr Gwilym Jones, 24 Bro Rhos a Mr Robert Gwynedd mab y Parchedig a Mrs Cledwyn Parry, Rhuthun ar achlysur eu priodas Medi 10 yn eglwys Llanddeiniolen. Mae'r ddau'n aelodau o'r heddlu ac yn cartrefu yn Nhŷ'r Heddlu Tregarth.

Dydd Sadwrn Medi 3 yng nghapel Maentwrog priodwyd Trefor Gwyn mab Mr a Mrs E.H. Jones, Bryn Banon a Rhian merch Mr a Mrs J.T. Owen, Maentwrog. Pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Llys Elen, Bethel.

EISTEDDFOD BETHEL A'R CYLCH: Cynhelir yr Eisteddfod pnawn a nos Sadwrn, Tachwed 12 1983. Y beirniaid fydd: Llenyddiaeth ac Adrodd: Mr Gwilym Hughes, Llandwrog, Canu: Einir Wyn, Rhiwlas.

Ceir cystadlaethau unigol ac i gorau. 'Blychau', T. Rowland Hughes yw'r darn i gôr adrodd, Tŵn 'Croeswen' a'r geiriau 'Wele cawsom y Meseia' yw'r darn i'r Côr Pedwar Llais.

Cynhelir cystadlaethau Gwaith Llaw a Choginio nos lau, Tachwedd 10 1983 yn y Neuadd Goffa. Y cynnyrch i fod yn y Neuadd erbyn 5.45 p.m.

CLWB IEUENCTID: Mae'r Clwb Ieuencid yn aildddechrau eu tymor newydd yn y neuadd ar nos Fercher o hyn ymlaen yn lle'r nos lau.

MAM A'I PHLENTYN: Mae cylch mam a'i phlentyn yma ym Methel yn eich gwahodd chi a'ch plentyn i ymuno â hwy bob bore Mercher o 10.00 tan 11.00 a.m.

Fe gaiff y plant gyfle i chwarae tra byddwch chi fel mamau yn cael cyfle i ddod i nabod eich gilydd a chael cwpaned o de neu goffi.

Mae cylch mam a'i phlentyn yn ganolfan i famau ddod at ei gilydd gyda'u plant. Y mae'n rhoi gyfle i'r mamau gael mynd allan o'r tŷ a gwneud ffrindiau newydd tra mae'r plant yn chwarae ac i gyd yn yr un ystafell.

Mae chwarae gyda phlant eraill yn gyfle iddynt ddysgu'r sgiliau cymdeithasol h.y. sut i chwarae gydag eraill. Mae chwarae gydag eraill yn golygu siarad gyda phobl gwahanol, cymryd eu tro a rhannu tegau.

Felly gwnewch eich gorau i ddod atom i'r cylch er mwyn eich plentyn a chi eich hunain!

Eirlys Williams, Ysgrifennydd.

PRIODAS: Yng nghapel Gilgal (A) Maentwrog ddydd Sadwrn Medi 3 priodwyd Trefor Gwyn, unig fab Mr a Mrs E.H. Jones, Bryn Banon a Rhian unig ferch Mr a Mrs T.J. Owen,

Bronturnor, (cyn-weinidog Maentwrog) oedd yn gweinyddu. Dewi Rhys (cefnwr y priodfab) oedd y gwas, a'r morynion priodas oedd Gwyneth ac Eirlys Jones (cyfnitherod y briodferch) a'r organyddes oedd Mrs Mair Hoyle. Aeth y ddau ifanc i Yugoslavia i dreuio'u mis mēl. Byddant yn cartrefu yn Llys Eden, Bethel.

LLONGYFARCHIADAU: i Alison J. Hughes, 9 Tan y Buarth ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Awst 16 ac i Meirion Williams oedd yn 18 ar Fedi 20.

YR URDD: Cynhaliwyd pwyllgor yr Urdd yn y Neuadd nos Fercher, 21 Medi. Ailetholwyd y swyddogion, sef Cadeirydd: Geraint Elis, Is-gadeirydd, Llinos Wyn, Trysorydd, Dafydd Williams ac Ysgrifennydd, Mrs Fanny Owen. Penderfynwyd newid noson yr Urdd eleni o nos Wener i nos lau rhwng 6 a 7 a bydd y tymor yn dechrau gyda chyfarfod i ymaelodi yn y Neuadd nos lau Medi 29. Bydd y tâl aelodaeth yn 70c ond dim ond 10c i blant fydd yn aelodau o Adran Ysgol Brynrefail. Trefnwyd rhaglen ddifyr am y tymor gydag ymweliad â Gorsaf Dân ac ymweliad ag Aelwyd Bontnewydd a gwahoddir yn aelodau pawb oedd yn 6 oed cyn 31 Awst 1983.

CYDYMDEIMLO: Estynnwn ein cydymdeimlad â theuluoedd fu mewn profedigaeth yn ystod yr haf. Collodd Mr Deiniol Williams, Cilgwyn ei frawd, Mr Albert Williams a fu'n byw yn Gerddi ond am ychydig wythnosau. Hefyd yng Nghaerdydd bu farw Mr William Pritchard Owen, brawd Mr Goronwy Owen a Mr Howell Owen, 18 Cremlyn. Ar Awst 29 yn 93 mlwydd oed bu farw Miss Ann Jones, Y Gelli.

CLWB Y MAMAU: Nos Wener, Hydref 28 bydd Clwb y Mamau yn

cynnal Ffair yn y Neuadd i gasglu arian at yr anrhegion y maent yn eu cyflwyno i henoed y pentref bob Nadolig ers blynnyddoedd bellach. Ar y noson bydd gwobrwyo enillwyr cystadleuaeth arlunio ar y testun Calan Gaeaf. Mae 3 cystadleuaeth sef dan 5 oed, dan 11 oed a dan 15 oed a dylai'r lluniau fod yn llaw Mrs June Owen, Cadnant neu Mrs Margaret Rees, Y Rhos cyn 17 Hydref.

PWYLLGOR Y NEUADD: Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Pwyllgor y Neuadd nos Lun, 31 Hydref am 7.30 yn y Neuadd. Estynnir gwahoddiad i'r holl ardalwyr i'r cyfarfod ond gofynnir yn arbennig i bob mudiad anfon dau gynrychiolydd i eistedd ar y Pwyllgor am 1983-84.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn yr ysgol ar Fedi 15 dan lywyddiaeth Mrs Ellen Jones, Awel-y-grug. Y wraig wadd oedd Mrs Joyce Jones, Llanrug. Siaradodd am ei gwaith yn Ysgol Pendarar Caernarfon. Diolchwyd iddi gan Mrs Betty Jones, Pen-buarth. Llongyfarchwyd Mrs Betty Hughes, Llanrug am fod yn nain a hefyd Mrs Sally Hughes, 35 Bro Rhos am fod yn hen nain. Estynnwyd cydymdeimlad â Mr Deiniol Williams ar golli ei frawd a hefyd teulu'r ddiweddar Miss Ann Jones, Y Gelli. Croesawyd Mrs Ann Platt i'n plith. Penderfynwyd i Mrs Ellen Jones roi torch papi coch ar y gofeb ym mis Tachwedd. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary L. Hughes a Mrs Elisabeth Williams a Miss Katie Morris y dair o Penrhos a hwy hefyd roddwyd y raffl, ac fe'i enillwyd gan Mrs Edith Humphries Felin Heli.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

TAN-Y-COED

Gohebydd: Mrs M. Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed. Ffôn: Llanberis 870030

YMDDIHEURIAD: i Miss Eilir Williams, 7 Pen y Graig, Caernarfon am yr amryfusedd a wnaed yn rhifyn Medi o 'Eco'r Wyddfa' - peidio a'i rhestru ymysg wyresau Mrs Elizabeth Williams, 2 Tai Minffordd.

Merch Mr Henry Williams, 7 Pen y Graig, Caernarfon yw Miss Williams - goruchwyliwr gwisgoedd yn gweithio gyda chwmnïau annibynnol ar gyfer rhaglenni S4C yw ei swydd. Pob dymuniad da iddi yn y gwaith hwn.

DYMUNIADAU DA'R ardal i Miss Margaret E. Roberts, Tainewyddion fydd yn dechrau ar ei gyrfa fel myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd Medi 20.

CROESO i deulu Bryn Cwil i'n mysg.

Symudodd Mr a Mrs Reagan i'w cartref newydd yn ddiweddar. Dymuniadau da'r ardal iddynt hwy a'u teulu.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs G.S. Chohan, Pant Clyd ar enedigaeth eu mab, brawd i Neelme ac Imran Aneel - Awst 24.

NOS WENER Medi 16 yn Festri Tan-y-coed cynhaliwyd Gwerthiant a Noson Goffi - y cyfarfod wedi ei drefnu gan Mr a Mrs Emyr Tomos, Clwt-y-bont, Deiniolen. Mrs Thomas yn fwy adnabyddus yn yr ardal yma fel Miss Delyth Wyn Jones, 3 Tai Tan-y-coed.

Agorwyd y cyfarfod gan y Parch W.O. Roberts. Gwerthwyd nwyddau Taircraft a gwnaed elw sylweddol er budd trigolion y Trydydd Byd.

Diolch i bawb a gefnogodd yr ymdrech.


Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis

Ym myd yr adar

gyda Ieuan Williams

CEDWIR ADAR gan rhai pobl gyda'r unig fwrriad o gael y pleser o edrych arnynt, a'r gwmnïaeth a geir yn eu mysg. Nod pob adarwr "proffesiynol" er hynny, yw magu rhai o safon uchel fel y gall gystadlu yn y sioeau ac ennill y prif wobrau. Dyma uchafbwynt ei flwyddyn gan ddyheu bod enillydd o fri ymysg ei gywion. Nid yw'r wobwr ei hun o fawr werth - yr anrhydedd a'r bri sy'n bwysig.

Fel y daw'r adar dros y cyfnod colli plu blynyddol dechreuir ar y cystadlaethau. Cynhelir rhai ym mis Medi, gyda'r tymor yn cyrraedd uchafbwynt yn Nhachwedd a Rhagfyr. Mae gan pob cymdeithas ei syniadau ei hun ar sut i gynnal a threfnu sioe, ond yn yr erthygl hon eto, ceisiaf roddi fraslun cyffredinol.

Cynhelir y sioe ar y Sadwrn gan amlaf, ond bydd trefnwyr yr amgylchiad yno yn gynnar ddydd Gwener yn gosod y meinciau sy'n dal y cannoedd cewyll yn eu lle. Yn wahanol i sioe golomenod neu gwningod, yr adarwr ei hun sy'n berchen ar y cewyll ac nid y gymdeithas. Mae i bob math o aderyn gawell gwahanol, a gellwch ddychmygu felly yr amrywiaeth a geir yn y neuaddau. Mae gŵr o'r Waunfawr, Mr Ron Williams, wedi sefydlu busnes yn y Gaerwen, Môn, i gynhyrchu yr amrywiol gewyll hyn. Mae hefyd yn arbenigo mewn bwydydd o bob math. Un arall blaenllaw yn y maes yma yw Mr Idris Morris, Y Fachell, Llanddeiniolen.

Bydd yr adarwyr yn cyrraedd yn ystod gyda'r nos Wener ac yn blygeiniol fore Sadwrn a gadael eu hadar yng ngofal aelodau'r pwyllgor lleol. Fel gyda phob sioe arall mae rhif ar bob cawell, ac er bod yr olygfa yn edrych yn ddi-drefn iawn i leygwr, gŵyr pawb yn y neuadd (mwy neu lai) beth yn union sy'n digwydd.

Bydd beirniad ar gyfer pob adran, ond dibynna hyn ar faint y sioe, ond yn gyffredinol ceir pedwar neu bump. Arhosant hwy yn eu hunfan, gyda stiwardiaid yn symud yr adar atynt ddosbarth wrth ddosbarth gyda'r beirniad yn pwyso a mesur (nid yn llythrennol, wrth gwrs) pob un o'r adar yn eu tro cyn dyfarnu, a bydd yn marcio ar y cawell safle yr aderyn yn ei ddosbarth gan ddechrau gyda'r cyntaf hyd at y seithfed.

Mwyaf y sioe, mwyaf y gwaith barnu, wrth gwrs, ond yn y sioeau lleol mae'r gwaith beirniadu yn eithaf hawdd gan fod rhif y cystadleuwyr o

fewn terfynau rhesymol. Mewn sioe fawr, er hynny, mae'n bosibl cael cymaint â 80 o adar yn cystadlu mewn un dosbarth, a gellwch ddychmygu y cur pen sydd gan y beirniad druan ar adegau felly. Gallaf eich sicrhau ei bod dipyn haws barnu deg dosbarth gyda phedwar ymgeisydd ym mhob un, na cheisio didoli un dosbarth o 40.

Bydd enillydd pob dosbarth yn cystadlu'n ddiweddarach yn erbyn ei gilydd i benodi'r gorau yn y gwahanol adrannau, ac yna ânt ymlaen i gystadlu eto am y wobwr o'r aderyn gorau yn y sioe. Aiff hyn ymlaen, gyda llaw, gyda neb ond y beirniad a swyddogion y gymdeithas yn y neuadd, a chymer ar gyfartaledd rhyw dair awr a hanner i'w gyflawni, cyn golwng y dorf i mewn yn y prynhawn. Mae rhediad y bore yn dibynnu i raddau helaeth ar effeithiolrwydd yr ysgrifennydd a'r "show manager" gan fod y ddwy swydd yma yn rhai allweddol iawn.

Bydd beirniadu mawr yn aml ar waith y beirniad yn y prynhawn, yn enwedig gan y rhai na ddaeth i'r brig. Rhydd y beirniad eu barn yn onest ac eithriad yw i aderyn cymedrol gael cam (mae'n digwydd weithiau fel ymhob adran o fywyd). Cyflwynir cwpanau a'r gwobrau eraill i'r enillydd tua 4.30 a bydd popeth drosodd tua 5. Yna aiff y pwyllgor druan dryw'r un broses o chwith eto a thynnu popeth i lawr am flwyddyn arall!

Os oes awydd ar unrhyw un ohonoch ymweld â sioe, rhestraf isod y rhai agosaf i ardal yr 'Eco'. Hawdd yw treulio awr neu ddwy yno, ond cymhellaf chwi gael rhywun sy'n gwybod beth sy'n digwydd i'ch tywys o gwmpas gan y gall hynny gyfoethogi eich mwyniant yn sicr.

Dyma'r sioeau am eleni:

Caernarfon, Hydref 8: Feed my Lambs

Llandudno, Hydref 15: Neuadd y Dref

Penygroes, Tachwedd 12: Neuadd Goffa

Pwllheli, Tachwedd 19: Badminton Hall

Y Felinheli, Tachwedd 26: Neuadd Goffa

Trefor, Rhagfyr 17: Neuadd Bentref

Dymunaf ddiolch ar derfyn y gyfres i'r cyd-adarwyr a roddodd help llaw i mi i gyflwyno'r erthyglau hyn, ond diolch yn bennaf i'r degau o ddarlennwyr yr 'Eco' am eu diddordeb a'u gwerthfawrogiad o'r ysgrifau - bu'n ysgogiad i mi.

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

PRIODAS: Yn Eglwys Llanaelhaearn ar Awst 20 gyda'r Parch Idris Thomas, yn gwasanaethu a'r Parch Aled Edwards, Ficer Dinorwig yn cynorthwyo priodwyd Mr Kevin Fleming, unig fab Mrs M. Fleming, 1 Maes Eilian, â Miss Sianelen Evans, unig ferch Mr a Mrs Ioan Mai Evans, Alpha, Llithfaen. Yr organyddes oedd Miss Wendy Ll. Hughes a Mrs Gwennant Roberts, ffrind y briodferch ar y delyn. Y morynion oedd Mrs Eirlys Griffith, ffrind y briodferch a Gail Williams nith y priodfab. Y gwas oedd Mr John Chick, ffrind y priodfab a'r ystlyswyr oedd Mr Michael Williams a Mr Emyr Roberts. Cynhaliwyd ywledd briodas i drigain yng Ngwesty Plas Pistyll, Nefyn. Gwnaed y deisen briodas gan ewythr y priodfab o Ynys Gurnsey. Bydd y pâr ifanc yn cartrefu yn 3 Mountain View, Porthaethwy.

DAMWAIN: Yn ddiweddar cafodd Mr Gwilym Jones, Foel ddamwain i'w goes tra'n dilyn y gwaith o fugeilio'r defaid. Torrodd asgwrn ei goes chwith. Dymunwn wellhad buan iddo.

DIOLCH: Dymuna Kelvin a Sianelen ddiolch am y llu o anghefion a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

CYMDEITHAS ADDYSG Y

GWEITHWYR: Bydd dosbarth nos dan nawdd yr uchod yn cychwyn nos lau Medi 22 am 7. Cynhelir 5 dosbarth yn y Ganolfan, ar y testun 'Egwyl ym Myd Llên' a'r athro fydd Mr Ifor Baines, B.A., Penygroes. Croeso cynnes i bawb.

Ein cofion at y rhai sy'n cwyno a gwellhad buan.

EGLWYS ST MAIR - Dyddiadur mis Hydref: Oherwydd nifer o amgylchiadau bu rhaid i'r Ficer, gyda sêl bendith Cyfarfod Eglwysig newid trefn a nifer y gwasanaethau a geir yn yr eglwys.

Dyma'r drefn ym mis Hydref:
2il: 9.30 Cymun Bendigaid. 2.00 Gwasanaeth y Plant yn Llandinorwig dan nawdd Cymdeithas y Beibla. 6.00 Cymanfa Ganu yn Llandinorwig dan nawdd Cymdeithas y Beibla. 9fed: 4.45 Gosber a phregeth. 16eg: 9.30 Boreol Weddi a phregeth. 23ain: 4.45 Cymun a Phregeth. 30ain (Sul Undebol): 10.00 Cymun Bendigaid ym Mhenisarwaun. 2.00 Gwasanaeth Ieuencid yn Llandinorwig. 5.30 Gosber a phregeth yn St Mair.

Bydd y newidiadau hyn yn galluogi'r Ficer i fod yn bresennol ym mhob Gwasanaeth mewn mis arferol.

YMDDIHEURO: Drwg gennym fod yr enw 'Deiniolen' wedi ymddangos uwchben colofn Dinorwig yn y rhifyn diwethaf.

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

Hydref 8
yn Neuadd Ysgol
Brynrefail
am
10.30 a 6 o'r gloch
Tocynnau 50c
(Plant 10c, wrth y drws)

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh
Development Agency



Golygfa nodweddiadol o sioe, gyda'r cewyll amrywiol yn y gwahanol ddosbarthiadau. Mae cael digon o oleuni yn hanfodol fel y gall y beirniad wneud chwarae teg â'r holl gystadleuwyr.

YR EFENGYLAU ERAILL

Y Parch Aled Edwards
(Ficer Llandinorwig a Phenisarwaun)

BETH YW eich ymateb chwi i'r crefyddwyr hynny sy'n mynd o dŷ i dŷ yn cenhadu?

'Maen nhw'n niwsans' yw'r ateb a geir rhan amlaf. Ac yn wir, fe all ychydig o grefydd fod yn niwsans i nifer o ardalydd, yn arbennig ar ddydd Sul. Pwrpas dydd Sul yw twtio'r ardd a gofalu am enaid y peiriant pedair olwyn sy'n ein cludo o fan i fan. Mae gan y rhan fwyaf ohonyn bethau amgenach i'w wneud ar ddydd Sul na siarad am grefydd gyda rhyw ddieithryn wrth garreg y drws. Y cwestiwn yw, beth ar y ddaear sy'n gwneud y bobl yma mor wahanol i ni? Gellir crynhoi'r ateb yn dactylus mewn un gair, sef argyhoeddiad.

Ystyriwn y Mormoniaid, er enghraifft. Bydd pob Mormon a ddaw i'ch drws chwi yn aberthu ar gost ei hun, flwyddyn gyfan o'i fywyd. Bydd llawer yn rhoi degfed rhan o'u cyflog i'r Eglwys a hynny cyn i'r wladwriaeth hawlio'r dreth incwm. Nid gwiriondeb yw hyn, ond gwirediad o egwyddor Beiblaidd sy'n rhwym ar bob Cristion. Ni ellir condemnio'r Mormon am iddo ddilyn yn ffyddlon yr hyn a geir yn y Beibl. Ni cheir y fath greadur â'r Mormon sy'n Formon mewn enw yn unig.

Gellir adnabod Mormon yn syth. Bydd y dyn wrth droed eich drws yn lân, yn dactylus ac yn fanesol. Mwy na thebyg bydd gan un ohonynt acen Americanaidd. Rhan amlaf, fe welir y Mormoniaid yn cenhadu bob yn ddau gan ddilyn eto yr hyn a osodir yn yr Efengyllau gan yr Iesu ei hun. Eithriad fyddai gweld un neu dri Mormon yn galw heibio ac yn aml, fe welir Americanwr yn dysgu brodor sut i genhadu.

Wedi dweud hyn i gyd, ni ellir uniaethu argyhoeddiad a chywirdeb diwinyddol. Nid wyf yma am ddilorni cred y Mormoniaid ond nodaf rhai o'r gwahaniaethau amlycaf rhyngom ni a nhw. Hynny yw, os ydym yn ddigon gwybodys i falio beth yw'r gwahaniaeth rhyngom ni a nhw.

Yn gyntaf, nid yw'r Mormon yn credu fod y Beibl sydd gennym ni yn ddigonol. Rhaid iddo wrth Feibl arall, sef 'The Book of Mormon'. Ceir gwreiddiau amheus iawn i'r llyfr hwn. Seilir ei fodolaeth ar weledigaeth Americanwr o'r enw Joseph Smith. Yn ystod ei ardegau, gofynnodd Joseph Smith am arweiniad Duw ynglŷn â phethau crefyddol. Cafodd ei ddrysau braidd yn ystod ei ddyddiau cynnar gan y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid. Trwy nifer o weledigaethau cadarnhaodd Duw nad oedd Joseph Smith i

ymuno â'r un Eglwys Gristnogol, ei briod waith fyddai dechrau Eglwys newydd. Yn ychwanegol i hyn, dros gyfnod o amser, cafodd Joseph Smith nifer o blatiau gyda'r Beibl newydd yn ysgrifenedig arnynt. Ni allai ddeall yr iaith hynafol a gafwyd ar y platiau hyn, ond fe seilir bodolaeth 'The Church of Christ of Latter Day Saints' ar y geiriau hyn.

Nodaf nifer o ffeithiau dylid eu hystyried. Yn gyntaf, dyma'r tro cyntaf i Dduw ddatguddio ei hun mewn iaith sy'n ddieithr i ddynolryw. Holl bwrpas unrhyw weithred o ddatguddiad yw bod y sawl sy'n ei dderbyn yn deall y neges. Ysgrifennwyd ein Beibl ni mewn ieithoedd cyffredin megis Hebraeg, Aramaeg a Groeg. Cafwyd nifer o dystion i fodolaeth platiau Joseph Smith ond cafodd nifer o'r rhain eu torri allan o'r enwad yn ddiweddarach am dwyllo. Gwelir hefyd fod y rhan fwyaf o'r dystion yn perthyn i Joseph Smith.

Arferai'r Mormoniaid cynnar briodi nifer o wragedd. Yn wir, cafodd nai i Joseph Smith ei ddirwyio am briodi mwy nag un gwraig yn 1907. Cafodd y nai hwn 43 o blant. Gall y Mormon gredu mewn nifer o dduwiau ac mae ganddo'r syniad fod Duw ei hun yn gnawd. Pregethodd Joseph Smith ddamcaniaeth wrth-Drindodaidd. Cred y Cristion mewn un Duw a thri pherson, ond fe gred y Mormon mewn tri duw.

Un peth sy'n ddamniol am y Mormoniaid mewn cyswllt cydweithasol yw eu hagwedd tuag at bobl dduon. Ni chaiff yr un dyn du fod yn offeiriad yn yr Eglwys. Rhaid cofio yn hyn o beth, fod pob bachgen dros 12 oed yn yr Eglwys Formonaidd yn cael ei ystyried fel offeiriad. I'r Mormon, creadur eilradd yw'r dyn du. Pwy â ŵyr, efallai bydd yr Eglwys, dan bwysau cymdeithasol, yn newid hyn fel y

gwnaethant yng nghyswllt bigami?

Dyma, felly, rai o'r gwahaniaethau rhyngom ni a nhw. Fel yr eglurais, nid fy mwriad yw condemnio cred unrhyw ddyn, ond fe garwn nodi un peth i orffen, nid Cristion yw pob dyn manesol sy'n siarad am Iesu Grist. Cofier yr hen ddihareb, nid aur yw pop peth melyn.

Gwasanaethau Diolchgarwch Plwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun

Eglwys Crist Llandinorwig
Dydd Llun, Hydref 17. 10.30 Cymun Bendigaid (Dwyieithog); 2.00 Gwasanaeth y Plant. 7.00 Gosber a phregeth gan y Parch P. Hughes.

Y plant i gyflwyno eu rhoddion yn ystod Gwasanaeth y prynhawn. Fe

addurnir yr Eglwys bore dydd Sadwrn Hydref 15.

Eglwys St Mair Dinorwig

Dydd Llun, Hydref 17: 9.30 Cymun Bendigaid, 5.45 Gosber a phregeth gan y Parch P. Hughes.

Y plant i gyflwyno eu rhoddion yn ystod Gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn y bore. Fe addurnir yr Eglwys bore dydd Sadwrn, Hydref 15.

Eglwys y Santes Helen Penisarwaun

Diolchgarwch y Canmlwyddiant. Dydd Sul, Hydref 23. 10.30 Cymun Bendigaid (Dwyieithog), 5.00 Gosber a phregeth gan y Gwir Barch G.O. Williams, Cyn-Archegon Cymru.

Y plant i gyflwyno eu rhoddion yn ystod Gwasanaeth y Cymun yn y bore. Fe addurnir yr Eglwys fore dydd Sadwrn Hydref 22ain.

YSGOL FEITHRIN LLANRUG

Ailddechreuodd tymor Ysgol Feithrin Llanrug gyda 14 o blant newydd yn ei mynychu. Bydd awyrgylch newydd iddynt eleni oherwydd fod Festri Capel Ponrhythallt wrthi'n cael ei ailbeintio.

Uchafbwyntiau'r tymor diwethaf i'r plant oedd eu hymwelid â Pharc Eirias ym Mae Colwyn a chyfarfod yno â SiwperTed. Yn ddiweddarach yn y tymor cafwyd trip i Butlins.

Mae pwyllgor yr Ysgol Feithrin wedi cyfarfod yn barod y tymor hwn, ac fel ymhob mudiad gwirfoddol, y testun ar y rhaglen oedd codi arian. Gwnaethpwyd peth elw ar y daith beiciau nodedig, ond mae coffrau'r trysorydd yn parhau'n ddigon isel i fod angen trefnu gweithgareddau codi arian ar fyrder.

Mae Noson Goffi eisoes wedi ei threfnu, a bydd wedi ei chynnal erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd. Mae'r pwyllgor hefyd wedi trefnu Disco

Calan Gaeaf i blant ar nos Lun, Hydref 31 - bydd mwy o fanylion am y noson yn ein rhifyn nesaf. Gobeithir hefyd gynnal Noson o Gyw Iâr a Sglodion rywbryd cyn y Nadolig.

Byddai'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn o unrhyw rodd ariannol tuag at yr Ysgol Feithrin, ac y mae angen teganau arnynt hefyd. Gellir anfon cyfraniadau i'r trysorydd, Mrs Maureen Williams, Antmor, Bryn Moelyn, neu'r ysgrifennydd, Mrs Florence Roberts, 15 Afon Rhos. Os oes unrhyw un yn barod i gynorthwyo gyda gweithgareddau codi arian, byddai'r pwyllgor yn ddiolchgar am bob help.



Plant yr Ysgol Feithrin ar ddiwedd tymor yr haf.



Aelodau o Fudiad 'Mam a'i Phram', Llanrug sy'n cyfarfod bob pŵnaw Mercher yn Festri Ponrhythallt. Yma mae'r plant ieuengaf un yn cael dysgu cyd-chwarae cyn wynebu boreau'r Ysgol Feithrin rhyw flwyddyn yn ddiweddarach. Mae croeso i unrhyw fam sydd â phlentyn o dan oed meithrin i'r cyfarfodydd.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI

(Deiniolen a'r Cylch)

i'w chynnal yng Nghapel Ebeneser Deiniolen

ddydd Sadwrn, Hydref 29, 1983

am 12.30 yn y prynhawn a 6.00 yn yr hwyr

Rhestr Testunau i'w cael yn y siopau lleol, neu gan yr Ysgrifennydd, y Parch Aled Edwards

Y Ficerdy, Clwt-y-bont, Deiniolen

Llanberis 870867

Dyddiadau Pwysig:

Nos Wener, Hydref 7: y cyfansoddiadau llenyddol i fod i mewn

Nos Wener, Hydref 21ain, Celf a Chrefft i mewn

Dydd Sadwrn, Hydref 22ain. Arddangosfa Celf a Chrefft yn y Ganolfan, rhwng 2 a 4 o'r gloch y prynhawn

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

WAUNFAWR



Gohebydd : Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626).

YR YSGOL: Enillodd Grŵp Offerynnol yr Ysgol y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni gyda chanmoliaeth uchel.

Rhoddwyd iddynt 92 o farciau allan o gant gan y ddau feirniad, Mr Haydn Wyn Davies a Mr Arthur Davidson (Arweinydd Cerddorfa Ieuencid Cymru). Hyfforddwyd y grŵp gan Mrs Eurgain Eames.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst: 1af £40, Janet Greasley, Minafon, 2il £25, Jean Jones, Llwyn Onn. 3ydd £10, F. & R. Troughton, Pant Gwyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod fis Medi o'r Sefydliad yn Ffestri Capel Croesywaun nos lau Medi 1af gyda Mrs C.A. Jones, y llywydd, yn y gadair.

Croesawodd y llywydd yr aelodau yn ôl i'r cyfarfod ar ôl gwyliau'r haf. Cydymdeimlodd â Miss Powell a Miss C.E. Williams, Is Eilian yn eu profedigaeth. Llongyfarchodd Mrs Mary Davies ar enedigaeth wyres, ec estynnodd gyfarfodion o wellhad buan i Mr Wyn Jones. Rhoddodd longyfarchiadau i blant y pentref sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu harholiadau. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf, a'u trafod.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan y wraig wadd, Mrs M.E. Jones o Griccieth ac ei hysgrif 'Tri Chymeriad Gwreiddiol'. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ffestri Capel Croesywaun nos lau Hydref 6 pryd y disgwylir Mrs Betty Marshall i roi sgwrs gyda sleidiau ar y Coleg Denman.

EISTEDDFOD YR ARDAL: Cynhelir y beirniadu ar y cystadlaethau arlunio, coginio, gwaith llaw a ffotograffiaeth yn yr ysgol nos Fercher Hydref 19 am 5.30 o'r gloch.

Ceisiwch ddod â'ch gwaith Llên i'r ysgrifennydd erbyn **Hydref 21**.

Byddwn yn ddiolchgar i bawb yn y pentref am eu cefnogaeth - ac i ddysgu'r plant a'r bobol ieuainc yn y gwahanol gystadlaethau.

Oherwydd amgylchiadau arbennig, y beirniad adrodd yw Mr John Hywyn ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am dderbyn ein gwahoddiad. Cofiwch am y Linell Goll.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr Idwal Wyn Jones, Benallt ar ei briodas â

Nellie Jones o Saron, Llanwnda.

I Phyllis Jones, Argraig, Stâd Tŷ Hen ar ei phriodas ag Adrian Bennet o Fethel. Maent yn ymgartrefu ym Methel.

I Helen Griffiths, Tŷ'n yr Onnen, ar ei phriodas â Leonard Swain o Lundain. Byddant yn ymgartrefu yn Llundain.

I Glenda Jones, Lynford ar ei dyweddïad ag Eryl Davies o'r Rhyf.

I Nigel Wyn Lewis, Ael y Bryn ar ei ben-blwydd yn 21 oed.

CYDYMDEIMLWN: Â Mrs Jennie Roberts, Tŷ Hen yn ei phrofedigaeth o golli mam; a Mrs Tansfield, Corner Cottage, ar golli priod.

ADREF O'R YSBYTY: Drwg oedd clywed am ddamwain Mrs L. Evans, Tegfan a gobeithiwn ei bod yn gwella ar ôl ei harhosiad yn yr ysbty.

Bu Mr Danny Pierce, Llys y Gwynt hefyd yn yr ysbty ac yntau newydd ddod i'r pentref i fyw. Gobeithiwn ei fod yn gwella erbyn hyn a chroesawn ef a'r teulu i'n plith.

Gobeithiwn hefyd fod Mrs Irene Roberts, Pant Teg yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbty.

DIOLCH: Dymuna Kevin a Bronwen Jones ddiolch i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion am y llw anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

YR URDD: Cofiwch, blant, am yr Urdd bob nos Fercher am 6 o'r gloch. Mae yna raglen amrywiol a diddorol wedi ei threfnu ar gyfer y tymor.

CLWB 100: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Medi - 1. Robert Jones, Tan y Fron, 2il. Luned Roberts, Sŵn y Gwynt, 3. Dic Jones, Llwyn Onn.

DIOLCH: Dymuna Miss E.M. Powell a Miss C.E. Williams ddiolch o galon am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch arbennig i'r meddygon teulu, y clerigwyr, a staff Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Trosglwyddwyd y swm o £160 a dderbyniwyd i'r Feddygfa.

DIOLCH: Dymuna Enid, Iorwerth, Linda a Ray, Heli ddiolch i'r cymdogion a'r ffrindiau i gyd, am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd yn eu profedigaeth sydyn.

Diolch hefyd i'r meddygon teulu am eu caredigrwydd parod bob amser. Hefyd diolch i Mr Selwyn Morris, Llanrug.

Trosglwyddwyd y swm o £225 a dderbyniwyd i'r Feddygfa.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

CARNIFAL:

Ddydd Sadwrn, Awst 27 cynhaliwyd y Carnifal, Mabolgampau a Gemau Giamocs yn y cae chwarae. Beirniadwyd y gystadleuaeth wisg ffansi gan Mr Harris Thomas a Mrs Eluned Thomas o Gaernarfon.

Canlyniadau:

O dan 4 oed: 1. James Kelly, 2. Iola Davies, 3. Jodie Kelly. **Dan 7:** 1. Nicola Houston, 2. Marian Jones, 3. Paul Jones. **Dan 11:** 1. Sally Ellis a Paul Roberts, 2. Kelvin Houston a John. **Dan 16:** 1. Susan Parry, 2. Meinir Jones a Richard Ellis, 3. Caron Jones ac Emma Roberts. **Oedolion:** 1. Sheila Williams a Peggy Davies, 2. Carol Houston ac Anita Jones, 3. Mair Williams a Jennie Roberts.

Fe wobrwyrwyd nifer o blant eraill, yn cynnwys Bryn, Aaron, Darren a Gareth. Hefyd ymysg y plant hynaf - Monica, Llinos, Nisa, Sonia a'r ci defaid.

Penderfynwyd mai Sheila Williams a Peggy Davies oedd y goreuon o bawb ar y dydd.

Mae ein dyled yn fawr i Mr a Mrs Thomas am eu cwmni fel beirniad, ac hefyd am eu rhodd hael at yr achos.

Wedi'r gystadleuaeth wisg ffansi, cafwyd mabolgampau i'r plant a gemau giamocs ar gyfer y rhai hŷn. Cafwyd gornest rhwng tri thîm - sef tîm Anita, tîm

Ashley a tîm Shirley. Daeth tîm Anita ac Ashley yn gyfartal i rannu'r darian. Enillwyd y ras fawr hefyd gan Anita Jones a c Ashley Wager ac fe'i cyflwynwyd â tharian gan Bryn Williams, Bryn Melyn oedd gartref o'r Unol Daleithiau.

Newyddion eraill y mis:

CLWB Y MAMAU: Yn ystod mis Hydref, cynhaliwyd gyfarfod blynyddol y clwb, pan etholwyd swyddogion am y tymor i ddod. Llywydd: Carol Houston, Trysorydd: Mrs Hasson, Ysgrifennydd: Val Davies. Defnyddiwyd gweddill y noson yn trafod rhaglen am y tymor newydd. Darparwyd y te gan Rhian Jones a Helen Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Helen Jones ac fe'i enillwyd gan Pat Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mrs Hasson, yn dangos ei chasgliad o gwpanau coroni. Rhoddwyd gwpan yn anrheg ychwanegol i anrheg y mis gan Val Davies, a Mair Williams a fu'n lwcus i ennill y ddau. Darparwyd y te gan Jenny Hughes a Jinnie Williams.

CLWB PEDWARUGAIN

Enillwyr mis Awst - 4: 1. Alwyn (Cae'r Bythod); 2. Jenny Hughes; 3. Aled Green. 11: 1. Gwyn Mowl, 2. Celt Williams, 3. Carol Houston. 18: 1. Ellen Lewis, 2. Sylvia Williams, 3. Ifanwy Jones. 26: 1. Peggy Davies, 2. Megan Williams, 3. Alwyn Jones.

CWMNI THEATR IEUENCTID YR URDD

Bydd Cwmni Theatr Ieuencid Cenedlaethol yr Urdd yn dathlu ei ben-blwydd yn un mlwydd ar ddeg ym 1984. Byddwn yn teithio o gwmpas theatrau mawrion Cymru adeg y Pasg, fel arfer, y tro yma gyda rhywbeth gwahanol iawn i'r arfer. Bydd y Cwmni yn cyflwyno Theatr i Blant go iawn, ac yn perfformio'r ddrama PINOCIO gan Brian Way, wedi ei chyfieithu gan Emyr Edwards. Mae'r ddrama wedi ei seilio ar nofel enwog Carlo Collodi i blant. Bydd y cwrs a'r daith yn golygu cael gafael mewn nifer fawr o actorion ifainc a thechnegwyr a fydd yn gallu addasu eu gwaith i blant mewn theatrau. Bydd hyn yn fenter newydd i'r Cwmni, menter go anodd oherwydd nid yw cynulleidfaoedd o blant yn rhai hawdd i actio iddynt. Bydd angen llenwi cymeriadau ffantasi, yn bobl fyw ac yn anifeiliaid o bob math. Mae llawer iawn o antur ac o gyffro yn y ddrama ac mae'n sicr y ceir hwyl a sbri go fawr yn y theatrau ar y daith. Bydd cyfle hefyd i wneud cryn dipyn o waith byr fyfyr a dawns a meim yn ystod yr ymarferion.

Bydd y cynhyrchydd yn mynd o gwmpas Cymru ar daith i gyfnewid â darpar ymgeiswyr i'r Cwmni ym mis Tachwedd eleni.

Mae'r ddrama'n cynnwys geni Pinocio, ei ymdrechion i gerdded ac i siarad, ei daith i'r ysgol, ei anturiaethau gyda'r Gath a'r Llwynog peryglus, ei antur ar y meysydd aur, ei helbulon yng ngwlad yr asynnod, ei antur yn y syrcais, ei drychineb dan y môr ym mol y morfil, a'i achub gan Gepeto a'i wneud yn hogyn go iawn.

Bydd y daith yn cynnwys theatrau Clwyd, Gwynedd, Y Werin, Felinfach a'r Sherman Caerdydd. Bydd yna berfformiadau dwywaith bob dydd, pnawn a nos, oherwydd natur y ddrama i blant.

Unrhyw fanylion pellach:

Emyr Edwards, Ael y Bryn, Radyr, Caerdydd (Ffôn: 0222 843855) neu Adran Eisteddfod, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth (0970 3744 neu 3745)

Mae
G. JORDAN

CEFN ELAN LLANRUG

wedi prynu
busnes

ERIC GOVER LLANBERIS

I fenthyg
cymysgwyr
concrit, cludo
llwythi ysgafn,
clirio safleoedd a
sbwriel ac am
dywod, gro, brics
ynghyd â gwaith
trydanol fel o'r
blaen

Ffoniwch:

CAERNARFON 3581

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael:

£5: Teulu 'Heli' Waunfawr

£2: Mrs G.J. Griffiths, Bryn Llwyd, Llanberis; Mrs E.M. Jones, 20 Maes Padarn, Llanberis; Mr a Mrs H.A. Jones (Ceunant gynt), Sydney, Awstralia; Mr a Mrs O.W. Humphreys, 3 Gwastadnant, Nant Peris.

£1.50: Mr a Mrs J.R. Jones, 49 Maes Padarn, Llanberis

£1.00: Teulu, 33 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs M. Fleming, 1 Maes Eilian, Dinorwig; Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, Deiniolen.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd cyfarfod pnawn ddydd Mawrth Medi 20. Cafwyd sgwrs ar 'Cyfenwau' gan Mrs Alice Griffiths, Dinorwig. Rhoddwyd y te gan Mrs N.M. Pritchard, Mrs P. Williams a Mrs J.M. Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs E. Porter a rhoddodd Mrs Nesta Jones a Mrs B. Evans y diolchiadau. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 18.

LLONGYFARCHWN blant y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau a dymunwn yn dda i'r rhai hynny sydd wedi dechrau mewn gwahanol golegau ac ysgolion newydd y tymor hwn.

DYMUNWN bob hapusrwydd i Mr a Mrs Ifor Davies, Cae Howell yn eu cartref newydd yng Nghlynnog.

GWELLHAD BUAN i Mrs Roberts, 3 Tai Arthur sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty ym Mangor.

CYDYMDEIMLWN â Mrs J. Williams, Cae Corniog a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli priod a thad.

EGLWYS SANTES HELEN: Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun Medi 5. Y gŵr gwadd oedd Mr Dafydd Ellis, Brynrefail. Rhoddodd ychydig o hanes ei waith fel swyddog prawf. Fe roddwyd y te gan Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt a Mrs J.M. Jones, 4 Llys y Gwynt.

Llongyfarchwn Mr a Mrs Norman Rowlands, Rhochdale ar enedigaeth mab bach o'r enw Adam, ac hefyd i Mr a Mrs Allan Hughes, Bethesda ar enedigaeth eu mab, Dylan Wyn.

PRIODAS: Yn Eglwys St Hele Medi 17 priodwyd Dawn Owen, Siop Gron â John G. Morris, Weirglodd Goch. Gweinyddwyd gan y Parch Aled Edwards, Y Ficer. Bryngwyn Griffiths oedd wrth yr organ. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

Dymunwn wellhad buan i Mr O.C. Roberts, Elidir View - ein horganydd - wedi damwain yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs G. Lewis, 6 Llys y Gwynt a'r teulu i gyd. Collodd Mrs Lewis ei chefnider ym Methesda yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Dawn a Glyn Morris, ddiolch o galon i'w ffrindiau a pherthnasau, ac yn arbennig i

henoed y pentref am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

CASGLWYD: £80 tuag at N.S.P.C.C. Fe garai Carolyn Jones, 11 Bryntirion ddiolch yn fawr iawn i bawb em eu cefnogaeth.

LLONGYFARCHWN David Williams, gynt o 23 Bryntirion, ond yn awr yn byw yng Nghaernarfon am ei ymdrech lwyddiannus yn y 'Mini Marathon' a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yng nghanol y tywydd mawr yn ddiweddar. Fe fu hefyd yn llwyddiannus ym Mae Colwyn. Mae'n awr yn edrych ymlaen am fynd i'r Marathon yn Llundain i gystadlu yn ei gadair olwyn. Ardderchog iawn David.

YR YSGOL FEITHRIN: Cynhelir yr Ysgol Feithrin yn Neuadd yr Eglwys ar fore dydd Mawrth a dydd lau o 10 o'r gloch tan 11.30. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL TANYCOED:

Cynhelir y Noson Goffi flynyddol, ynghyd â'r amrywiol stondinau ar y nos Wener, Hydref 14 am 6.30 o'r gloch. Bydd yr elw at Gronfa'r Ysgol. Gwerthfawrogi pob cyfraniad.

EGLWYS Y SANTES HELEN -

Dyddiadur mis Hydref: Oherwydd nifer o amgylchiadau bu rhaid i'r Ficer, gyda sêl bendith y Cyngor Plwyfol Eglwysig, newid trefn a nifer y Gwasanaethau a geir yn yr Eglwys.

Dyma'r drefn ym mis Hydref:
2il: 10.45 Boreol Weddi, 2.00 Gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau yn Eglwys Llandinorwig, 6.00 Cymanfa Ganu yn Llandinorwig.
5ed: Merched: 10.30 Holy Communion Saesneg.

9ed: 10.45 Cymun Bendigaid. 2.00 Gwasanaeth Undebol yng Nghapel y Waun (Bosra) gyda'r Ficer yn pregethu.

Hydref 16: 10.45 Boreol Weddi, 4.30 Gosber.
23ain (Sul y Diolchgarwch) 10.30 Cymun Teuluol, 5.00 Gosber a phregethu.

30ain (Sul Undebol): 10.00 Cymun Bendigaid ym Mhenisarwaun, 2.00 Gwasanaeth Ieuencid yn Llandinorwig, 5.30 Gosber yn St Mair.

Bydd y newidiadau hyn yn galluogi'r Ficer i fod yn bresennol ym mhob gwasanaeth.

SIBRYDION O'R YSGOLION

Ysgol Brynrefail Llanrug
Cyfarfod Athletau Ysgolion
Cymru:

Bu Michael Roberts, Cwm-y-glo yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd yn y cyfarfod uchod yn Abertawe ddiwedd tymor yr haf. Fe ddaeth yn 5ed drwy Gymru yn y gystadleuaeth hyrddio'r pwysau - sy'n arbennig o dda wrth gofio y bydd Michael yn ddigon ifanc i gystadlu o dan yr un oedran eto y flwyddyn nesa'.

Criced:

Dewiswyd **Stuart Williams (Llanrug)** i chwarae i dîm criced Gogledd Cymru dan 13 oed. Yn ystod yr wythnos gyntaf o Orffennaf bu'n chwarae yn erbyn timau o'r canolbarth a'r de yn Aberhonddu.

Bu **Stuart a Dylan Edwin Jones (Penisarwaun)** hefyd yn chwarae i dîm Ysgolion Arfon, a enillodd yn weddol hawdd eu gêm yn erbyn Ysgolion Môn ym Mangor yn ystod wythnos olaf tymor yr haf.



PÊL-DROED:

Mae **Malcolm Allen (Deiniolen)** wedi ymuno â Watford, un o glybiau mwyaf llwyddiannus yr Adran Iaf. Tra yn yr ysgol bu'n chwarae i dimau ysgolion Arfon, Gwynedd a Gogledd Cymru. Dymunwn pob llwyddiant iddo yn ei yrfa fel chwaraewr



Cefn: Mrs Jenny Fletcher. Rhai o'r genethod a gymerodd ran yn y pêl-rwyd nodedig.

Blaen (chwith i'r dde): Llinos Davies, Helen Mai Pritchard, Elizabeth Jones, Elen Wyn Roberts, Sharon Owen.

proffesiynol.

Gemau yr Ysgol:

Ysgol Dyffryn Nantlle (oddi cartref): Pêl-droed 13: colli 6-2; Dan 15: ennill 4-2; Bechgyn hŷn: colli 3-2.

Pêl-rwyd (Dyffryn Nantlle oddi cartref): Tîm yr ail flwyddyn: ennill 14-3 (Diane Jones a Nia Owen yn sgorio). Tîm y drydedd flwyddyn: colli 12-0.

Rownderi tymor yr haf: Tîm rownderi dan 15 yr ysgol yn dod yn ail yng Nghystadleuaeth Rownderi Gwynedd yn Ysgol Eifionydd.

Pêl-rwyd nodedig yn ystod tymor yr haf:

Casglwyd £360 gan enethod yr ysgol i brynu offer i adran ymarfer corff yr ysgol - sef sgertiau gwyrdd, crysau coch a pheli i'w defnyddio gan dimau'r ysgol. Casglodd Ellen Wyn Roberts o'r dosbarth cyntaf £22 gyda Helen Mai Pritchard o'r ail flwyddyn yn hel £15.

Pwrpas y gêm oedd cael 20 ergyd am y rhwyd i weld faint o beli oedd yn mynd i mewn. Cafodd Elizabeth Jones, sydd yn chwarae i dîm yr ysgol ugain i mewn.

Diolch o galon i bawb am eu cyfraniad.

Croeso:

Ar ddechrau tymor newydd, estynnwn groeso i'n hathrawon newydd ac i'r disgyblion newydd yn y flwyddyn gyntaf. Croeso i Mrs Esyllt Morris Jones (Cymraeg), Mr Gwynfor Ellis (Arlunio) a Mrs Rhian Ellis Owen (Gwyddor Tŷ). Gobeithio y byddwch yn hapus yma yn Ysgol Brynrefail.

Pob hwyl i'r disgyblion newydd ar ddechrau gyrfa yma gyda ni.

YN EISIAU

Gofalwyr am adeiladau Capel M.C. Llanfairpwll i fyw yn ddirent yn y Tŷ Capel hwylus. Manylion pellach gan Rheinallt Thomas (Ysgrifennydd), Heulfryn, Frondeg, Llanfairpwll (Ffôn: 714488). Ceisiadau i law erbyn Hydref 14.

DEINIOLEN

C Gwasanaeth 24 awr -
A unrhyw bellter
B Eich rhedeg i'r Maes
S Awyr neu'r Porthladd

Ffôn: Llanberis
871591

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)




GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

CROESAIR HYDREF



AR DRAWS:

1. ... a phensel (5)
3. Y boc dylanwadol! (6)
7. Mae cariad pur fel y metel hwn (3)
8. Ystlys (3)
9. Udaf ato, rhywsut, gyda'r organau yma (7)
11. Stori (5)
13. Difyrus (5)
15. Pysgodyn (3)
17. "I ... fry ar y goeden" (4)
20. Mesur tir (4)
21. Gwael (7)
22. Diwethaf (4)
24. Yng nghanol y neidio gwyh mae'r segur (4)
27. Cysylltu (3)
29. Mae nai Al, o'i newid, yn ddiffaith (5)
30. Yd wedi ei falu (5)
33. Tad yn cyfrannu? Na, adfer (7)
34. "Hen ... fy nain" (3)
35. Llid (3)
36. Llesol (6)
37. Esgid ceffyl! (5)

I LAWR:

1. Heb fai (7)
2. Honiad (6)
4. Tro felina' i gael burum (6)
5. Di-ddiwedd, anfarwol (7)
6. Daw o ar ôl America i wneud swm anifeiliaid (3)
10. "Y Gŵr o Wlad ..."
12. Llewyrch (7)
14. Syth (5)
16. Sawr (5)
18. Papur ... (3)
19. "Aderyn ... â'i adain las" (3)

23. Rhannau o bennod yn y Beibl (7)
25. Tâl am gollod (7)
26. Efelychiad (6)
28. Mawrth neu Sadwrn, er enghraifft (6)
31. Rhyfedd (2)
32. Ger yn troi'n ffyrnig? (3)

Un llythrennol yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobri'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Atebion Croesair Medi

Ar draws: 1. Dweud, 2. Brawd, 8. Iasol, 9. Morfa, 10. Arafa, 11. Dawns, 12. Un, 13. Llanastr, 17. Nwy, 18. Eog, 20. Ras Fawr, 24. Te, 26. Alltud, 27. Anwir, 28. India, 29. Addurn, 30. Dillad, 31. Siart.

I lawr: 1. Damwain, 2. Efydwyr, 3. Diadell, 4. Asgwrn, 5. Blasus, 6. Atal, 7. Drain, 14. Arf, 15. Acw, 16. Recordia, 19. Gwarant, 21. Siarad, 22. Astrus, 23. Rwdins, 24. Troed, 25. Gwyll.

Enillydd: Rhiannon Llewelyn, Hafod Lwyfog, Tonteg, Pontypridd, Morgannwg Ganol.

YN EISIAU

Caets a stand bwji i Blas Pengwaith Llanberis - Rita Owen, Crud yr Awel, Llanberis.

Beic addas i fachgen saith oed: Ffôn Llanberis 872438

DYDDIADUR HYDREF

1. Sadwrn: YR ARDAL: Gŵyl Werin Caernarfon
9.30-11.30: Gweithdai Dawnsio yn Ysgol Syr Hugh Owen
1.00: Dawnsio ar y strydoedd
7.30: Twmpath Dawns a Chyw lâr mewn basged yng ngwesty'r Royal. Tocyn £3
3. Llun:
DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched LLANBERIS: Gyrfa Chwist St. Johns am 7.30
5. Mercher:
PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen: 10.30 - Cymun Bendigaidd (Saesneg)
LLANBERIS: Clwb y Mamau
BETHEL: Taith Noddedig Clwb y Mamau
6. Iau:
WAUNFAWR: Sefydliad y Merched - sgwrs gan Mrs Betty Marshall ar Goleg Denman
Clwb Gwyrfa
7. Gwener:
YR ARDAL: Clwb Eryri - sgwrs gan Mr Ifan Parry, Ceunant
8. Sadwrn:
LLANRUG: Eisteddfod Gadeiriol yn Neuadd Ysgol Brynrefail
YR ARDAL: Sioe Adar yn 'Feed my Lambs', Caernarfon
10. Llun:
LLANBERIS: Gyrfa Chwist y Clwb Pêl-droed am 7.30
11. Mawrth:
LLANRUG: Merched y Wawr - noson goffi i'r ardal yn yr Ysgol Gynradd am 7.00
12. Mercher:
BETHEL: Merched y Wawr: swyddogion o'r Heddlu yn sôn am atal troseddau
14. Gwener:
LLANBERIS: Te yr Henoed

17. Llun - Dydd Diolchgarwch
YR ARDAL: Yr ysgolion ar gau
DEINIOLLEN: Eglwys Crist Llandinorwig: 10.30 Cymun Bendigaidd (dwy-ieithog). 2.00 Gwasanaeth y Plant. 7.00 Gosber a Phregeth
- DINORWIG: Eglwys St. Mair: 9.30 Cymun Bendigaidd. 5.45 Gosber a Phregeth
- PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen: 10.30 Cymun Bendigaidd (dwy-ieithog). 5.00 Gosber a Phregeth
18. Mawrth:
LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol yn Festri Capel Pontrhythallt - anerchiad gan y Canon R.D. Roberts, Llanfairpwll, 'Apel Canu Gwerin Cymru'
- PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen
19. Mercher:
CWM-Y-GLO: Merched y Wawr
LLANBERIS: Clwb y Mamau
21. Gwener:
YR ARDAL: Ysgolion yn cau am Hanner Tymor
24. Llun:
LLANBERIS: Gyrfa Chwist Pêl-droed am 7.30
25. Mawrth:
DEINIOLLEN: Cangen Plaid Cymru - cwis â changen Bethesda yng Nghanolfa Tregarth
28. Gwener:
LLANBERIS: Te yr Henoed
29. Sadwrn:
DEINIOLLEN: Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebeneser am 12.30 a 6.00
31. Llun:
YR ARDAL: Yr ysgolion yn ailddechrau
LLANBERIS: Gyrfa Chwist y St Johns am 7.30

DYDDIADAU I'W COFIO

Tachwedd 12: Eisteddfod Bethel a'r Cylch

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL SYSTEMAU GWRESOGI OLEW GWRES BP

Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan, Dim un dasg rhy fawr.

J.M. JONES A'I FAB


GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNŴYR ANGLADDAU

DEINIOLLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

CHWARAEON



Y newydd ddyfodiaid i'r Gynghrair — Deiniolen — cyn eu gêm gyfartal yn erbyn Llanberis, Medi 24.

DEINIOLLEN 1 - LLANBERIS 1

Mewn gêm gyffrous iawn o flaen torf sylweddol cafwyd canlyniad teg wedi ennill eu dwy gêm fawr flaenorol — yn erbyn Bethel a Llanrug — dyma oedd prawf fawr Deiniolen. Yn amlwg nid oeddent yn ofni traddodiad na thalent Llanberis. Daeth gôl Deiniolen wedi deng munud gydag ergyd dda o ochr y blwch cosbi gan Ian Evans. Yr oedd ei rediadau cryf ar y chwith — a dawn Kevin Edwards — yr unig chwaraewr yn barod i sefyll ar y bêl — yn denu sylw. Er cryfed pwysau Llanberis, gydag Iolo Evans yn taro'r trawst, ni fu sgôr arall hyd yr egwyl. Yr un fu hanes yr ail hanner gyda Llanberis yn

pwysu, ond amddiffyn Deiniolen yn gadarn. Pan wahoddwyd gôl gan Gwilym Williams oherwydd camsefyll edrychachai'n ddu ar Lanberis, ond daeth arbediad pan beniodd Iolo Evans groesiad o'r dde i'r rhwyd. Yna, gyda phum munud yn weddill, taflodd Llanberis gyfle gwyh i ffwrdd pan fethodd John Williams, o'r smotyn gwyn. Canlyniad teg felly, a marciau uchel i ddau dîm ieuanc am eu hymdrech. Marciau isel iawn serch hynny i garfan o gefnogwyr — os dyna'r term — sy'n credu mai trwy regfeydd i gyfeiriad pawb mae cefnogi.

R.L.I.J.

TYMOR CICIO GWYNT — ETO!

DAETH y tymor pêl-droed ar ei rawd unwaith eto fel pe na bai erioed wedi ein gadael, ond mae newidiadau eleni — daeth Cynghrair newydd Gwynedd i fodolaeth, a daeth tîm newydd o ardal yr 'Eco' i fodolaeth. Croeso i Ddeiniolen!

Rhyw fis yn unig o'r tymor sydd wedi mynd heibio, ond mae llawer o ddilynwyr y bêl-droed yn darogan mai Pwllheli fydd Y tîm eleni. Maent eisoes wedi dangos eu bod yn awchu am gôls — gan sgorio saith yn erbyn Llanrug a Llanberis, a chwech yn erbyn Deiniolen. Yn barod, mae rhai yn dechrau sôn am y frwydr am ail safle'n y Gynghrair; a'r enwau amlycaf yw Llanberis, Harlech a Phenrhyn. Dim sôn am Lanrug a Bethel, a dim disgwyl i dîm newydd fel Deiniolen lwyddo yn eu tymor cyntaf. Beth, felly, fydd hanes y timau lleol?

Llanberis, mae'n debyg fydd tîm mwyaf llwyddiannus bro'r 'Eco'. Maent wedi llwyddo i gadw rhai o chwaraewyr eu hen garfan ac wedi asio chwaraewyr gorau eu tîm ieuencid gyda hwy. Yn gofalu am y tîm eleni mae Iwan Williams, a fu mor llwyddiannus gyda'r tîm ieuencid dros y tri thymor diwethaf. Dim ond un gêm a gollwyd hyd yn hyn, a honno'n erbyn y ffefrynnau — Pwllheli.

Bwriad Llanrug oedd canolbwyntio ar chwaraewyr lleol eleni, ond hyd yma, aeth y tymor o chwith iddynt, ac erbyn hyn fe'u gorfodwyd i arwyddo chwaraewyr eraill i geisio cryfhau'r tîm. Dyma, mae'n debyg, y cychwyn mwyaf echrydus yn y Gynghrair yn hanes y Clwb.

Gobaith Bethel, fel yn y tymhorau blaenorol fydd peidio â diweddu'r

tymor ar waelod y Gynghrair; ac eleni, 'rwy'n siŵr y gwelir y gobaith hwnnw'n cael ei wireddu. Ond er dweud hynny, mae arnaf ofn mai helpu Llanrug i ddal mwyaf i'r timau eraill ar ben yr ysgol fydd eu hanes.

Rhyw 'aderyn dieithr' o dîm fydd Deiniolen, a'u bwriad hwy fydd sefydlu eu hunain yn y Gynghrair: magu profiad ac adnabod y drefn; ac edrych ymlaen am y tymor nesaf er mwyn lledu eu hadenydd.

Gair o gerydd i ddiweddu'r llith hwn: a soniais o'r blaen am ddefnyddio iaith anwedus ar y maes pêl-droed. Gwelais y gêm ddiweddar rhwng Llanrug a Deiniolen ar gae Ysgol Brynrefail. Dylai'r dyfarnwr fod wedi dangos ei awdurdod ar y maes yn llawer cynt — yn enwedig ynglŷn ag araith rhai o'r chwaraewyr — o'r ddau dîm. Nid oes reswm mewn bloeddio rhegfeydd o un pen i'r cae i'r llall; ond mae'r awdurdod gan y dyfarnwr i roi terfyn ar hynny. Ar y llaw arall, rhaid apelio at synnwyr rhai o 'gefnogwyr' (os cefnogwyr) Deiniolen rhag defnyddio'r fath araith ag a ddefnyddiwyd ganddynt yn y gêm arbennig hon. Mae gan glybiau sy'n berchen eu caeau eu hunain yr hawl i wrthod mynediad i berson sy'n methu ag atal ei dafod brwnt. Gan bwy mae'r hawl i wahardd rhegwyr Deiniolen rhag mynychu cae Ysgol Brynrefail? A ddrlleno; ystyried.

NEWYDDION RHEDWYR ERYRI

ROEDD y 10fed a'r 11eg o Fedi yn Sadwrn a Sul prysur — a blinedig iawn — i aelodau o Glwb Rhedwyr Eryri, oherwydd roedd dwy ras yn cael eu cynnal ar y dyddiau hyn, a'r ddwy ras yn cyfrif tuag at bencampwriaeth y Clwb. Ddydd Sadwrn roedd Hanner Marathon Caernarfon, ac ar y Sul roedd Ras Fynydd Moel Eilio. Yr oedd i'r ddwy ras eu hatyniadau — i'r rhedwyr ac i'r gwylwyr.

Cychwynnai Ras Caernarfon yng nghanol glaw trwm a gwynt cryf o'r Ganolfan Chwaraeon ar Ffordd Bethel. Oddi yno, rhaid oedd i'r 85 rhedwr deithio i Lanfaglan, y Bontnewydd, Llandwrog a Saron cyn wynebu corwynt digroeso ar hyd glannau'r Foryd nes diweddu ar gaeau chwarae'r Aber. Ac er gwaethaf y tywydd, neu efallai oherwydd y tywydd, daeth y mwyafrif yn ôl yn ddiogel. Tra'r oedd 13 milltir yn wynebu'r dynion, roedd rاس dros llai o bellter i'r ieuencid, a rhedwyr o fro'r 'Eco' aeth â nifer o'r gwobrau — Paul a Linda Prytherch o Lanberis yn ennill eu hadrannau hwy, ac Adrian Owen o'r Waunfawr yn ennill hefyd. Yn y ras lawn i oedolion, doedd dim un o'r enillwyr o'r fro, ond daeth H.P. Davies o Fethel yn ail i redwyr y 'Super Veteran' sef rhai dros 50 oed!

Er gwaethaf oerni a gwlybanaeth y Sadwrn, roedd aelodau ieuengaf y Clwb allan yn brydlon fore Sul hefyd, yn barod i wynebu rاس o bellter amrywiol o Hostel Ieuencid Llwyn Celyn, Llanberis i fyny'r gelltydd am Fwlch Maesgwm a Moel Cynghorion. Unwaith eto, daeth Paul a Linda Prytherch yn gyntaf yn eu hadrannau hwy.

Yn y prynhawn roedd ras yr oedolion, gan gychwyn i fyny'r llwybr dros Dinas Tŷ Du i Fwlch y Groes cyn dringo i gopa Moel Eilio. Yno, mewn caenen denau o niwl, chwilio am lwybr drwy'r twmpathau grug dros y Foel Goch a'r Foel Gron, a'r gwynt deifiol yn chwipio dros y grib uwch cefnurf Cwm Daethwch. Disgyn i ben Bwlch Maesgwm cyn dringo unwaith eto i gopa Moel Cyn-

ghorion. Oddi yno, gollwng y coesau blinedig i lawr y llethrau serth a chroesi afon oerllyd cyn ymuno unwaith eto â llwybr Bwlch Maesgwm a'i ddilyn i ddiwedd y ras yn Llwyn Celyn. Do, fe redodd 60 o oedolion ar y Sul hwnnw — a gorffen y ras o wyth milltir a 3,000 o droedfeddi o ddringo. Diolch i'r gwragedd a'r gwŷr a'r plant a ddaeth yno i gefnogi ac i bawb a fu'n ddigon caredig i baratoi paned a chawl poeth i'r rhedwyr ar ddiwedd y ras. Na, doedd yr un o redwyr bro'r 'Eco' yn fudugol, ond aeth y wobwr gyntaf a'r record i'r ochr draw i'r Wyddfa — Glyn Griffith o Feddgelert yn ennill mewn ychydig dros awr.

Trueni na fyddai mwy o bobl yr ardal yn troi allan i wyluo ac i gefnogi ar achlysuron fel hyn. Yn aml iawn, rhieni a swyddogion Clwb Rhedwyr Eryri yn unig sydd yno i ysgwyddo'r holl faich, ond efallai mai adlewyrchiad o gymdeithas gyfoes yw hyn — yr ychydig sydd bob amser yn gweithio dros y llawer!

Y ras bwysig nesaf yng nghalendr rhedeg yr ardal fydd Marathon Eryri a drefnir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd y ras yn cychwyn yn Llanberis ac yn amgylchu'r Wyddfa, gan esgyn i 1,200 o droedfeddi ym Mhen y Pass ac ym Mwlch y Groes. Fe'i hysbysebir fel y Farathon anoddaf oherwydd yr holl elltydd, ac yn sicr, roedd amser y cyntaf y llynedd o ddwy awr a hanner yn dipyn arafach na'r farathon gonfensiynol ar y gwastad a gymer tua dwy awr a deng munud i'w rhedeg. Tybed a ddaw rhedwr lleol i'r brig eleni?



Llanberis yn pwysu'n drwm ar gôl Deiniolen.



Gwŷr Harlech yn ymosod ar Lanrug ar gae Eithin Duon. Colli fu hanes Llanrug — 1-3.